

Canllaw Arferion Da i Recriwtio



2021 V.2

AFA Cymru
Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol



National
Fostering
Framework
Fframwaith
Maethu
Cenedlaethol



cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

Recriwtio Gofalwyr Maeth

Canllaw Arferion Da i Dimau Maethu Awdurdodau Lleol

Bwriad y canllaw hwn yw darparu dull gweithredu amlinellol i'r ymddygiadau, ffordd o feddwl a'r camau gweithredu a fydd yn galluogi pob un ohonom i greu profiad cwsmeriaid cyson, effeithiol a chadarnhaol ar gyfer gofalwyr maethu Awdurdodau Lleol, o'u cam cyntaf ac ar hyd eu taith gyda ni.

Mae'r argymhellion arferion sydd wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o ddata perfformiad ar draws pob Awdurdod Lleol yng Nghymru; adborth a goladwyd gan ymgeiswyr i faethu a'r rhai a gymeradwywyd yn ddiweddar; ac archwilio i arweinyddiaeth, strwythur, systemau a phrosesau rhai o'r gwasanaethau recriwtio gorau ledled y DU.

Lluniwyd y canllaw hwn gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, ar y cyd ag AFA Cymru. Caiff ei gymeradwyo gan y rhanddeiliaid allweddol sy'n llywodraethu ac yn arwain gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.

Dylid ystyried cynnwys y ddogfen hon fel canllawiau. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn ar gais staff a gwasanaethau ledled Cymru. Mae'n bwysig cydnabod bod recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn faes datblygiad parhaus. Byddwn yn parhau i ymdrechu i ddysgu oddi wrth ein gilydd, a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, i wella ein gwasanaethau'n barhaus a sicrhau canlyniadau gwell. Fel gyda phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol, mae modelau gwasanaeth a strwythurau i'r gwasanaethau eu hunain benderfynu arnynt, yn ôl adnoddau a gofynion lleol.

"Rwy'n cofio teimlo fel pe bawn i'n gwneud un o benderfyniadau mwyaf fy mywyd a doedd gen i ddim syniad ai dyma oedd y peth iawn i'w wneud... Ymhen ychydig funudau o ffonio'r tîm maethu am y tro cyntaf, cefais fy sicrhau fy mod i mewn dwylo diogel ac roeddwn yn bendant fod y daith faethu yn addas i mi. Ni fyddaf fyth yn anghofio'r alwad ffôn gyntaf honno."

Ymgynghoriad - Negeseuon Allweddol

Mae'r daith i fod yn “Maethu Cymru” wedi bod yn ddull tîm cyfan o'r cychwyn. Rydym dim ond wedi gallu cyrraedd y pwynt hwn oherwydd mewnwelediad gwerthfawr pob rhanddeiliad a roddodd ei amser i rhannu eu profiadau, eu safbwyntiau, eu persbectif a'u syniadau.

Daeth y mewnwelediad mwyaf i bawb gan y rhai sydd wrth wraidd ein gwasanaethau, y bobl sy'n byw'r daith faethu - ymgeiswyr, gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc.

I'r rhai a gynigiodd brofiad uniongyrchol, roeddent yn rhannu gwybodaeth pwysig, sy'n sylfaen i'r argymhellion arfer da yn y canllaw hon.

Dywedodd staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o alluoeddau wrthym am yr hyn a oedd yn gweithio'n dda, yr hyn yr oeddent yn poeni amdano a'r pethau yr hoffent eu gwneud yn wahanol.

Aeth rhai gwasanaethau yn filltir pellach, roeddent yn rhannu'n fanwl iawn sut yr oeddent wedi trawsnewid eu gwasanaeth ac wedi arwain at ganlyniadau rhagorol o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Beth bynnag yw, neu wedi bod eich rôl ar ein taith i fod yn “Maethu Cymru”, rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth, mewnwelediad ac ymrwymiad.

Cynnwys

Recriwtio Gofalwyr Maeth	2
Canllaw Arferion Da i Dimau Maethu Awdurdodau Lleol.....	2
PAM rydym yn gwneud hyn: yr her a wynebwn, gyda'n gilydd.....	6
Y camau mawr rydym wedi'u cymryd i wynebu'r her honno.....	6
Ni yw Maethu Cymru.....	7
Pam rydym yn gwneud yr hyn a wnawn?	7
Pwysigrwydd y ffocws ar gwsmeriaid	8
SUT ydym yn dod i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid?	9
Bod yn Bwerus	11
Fod yn Ymroddedig	11
Fod yn Real.....	12
Yn Syfrdanol	13
Bod yn Flaengar.....	14
BETH mae angen i ni ei wneud: Arferion, Polisiâu a Phrosesau.....	16
Arferion.....	16
Yr Argraff Gyntaf	16
Cael yr oslef yn iawn.....	16
Defnyddio iaith syml ac osgoi "jargon"	17
Sut maent yn teimlo	17
Dod â phethau i derfyn bob amser (trefnu'r ymweliad cyntaf!)	21
Prosesau	22
Proses a gweithdrefn ar gyfer Ymholiad Cychwynnol	24
Paratoi ar gyfer Hyfforddiant Maethu	25
Strwythurau, Systemau ac Adnoddau	26

Negeseuon o'r ymchwil	26
Trosi i ymarfer	27
Cwestiynau i'w hystyried.....	29
Capasiti	30
Cymwysterau Staff	31
Aseswyr Annibynnol.....	32
Sicrhau Ansawdd a Monitro	33
Rheoliadau Maethu.....	34
Telerau Cymeradwyo	37
Tasgau Arbenigol.....	38
Ystod Oedran	39
Plant yn y cartref	40
Rhywedd	40
Capasiti	41
Cydnabyddiaethau	42

PAM rydym yn gwneud hyn: yr her a wynebwn, gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol yn wynebu her o ran recriwtio; o'i roi'n syml, mae angen lleoliadau maethu ar fwy o blant na nifer y gofalwyr maeth cymeradwy sydd ar gael.

Amcangyfrifir bod angen i ni recriwtio 550 o deuluoedd gofalwyr maeth newydd ledled Cymru bob blwyddyn i gadw i fyny â'r cynnydd yn niferoedd y plant y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan hefyd gymryd lle gofalwyr maeth sy'n ymddeol neu nad ydynt yn derbyn lleoliadau newydd. Bydd recriwtio rhagor o ofalwyr maeth o safon uchel i wasanaethau maethu'r Awdurdodau Lleol yn ein helpu ni i baru'r teuluoedd gorau posibl i'r plant trwy gynyddu'r dewis a'r hyblygrwydd.

Mae hyn i gyd wedi'i osod yn erbyn marchnad hynod gystadleuol, a boblogir gan nifer o sefydliadau masnachol effeithiol sydd ag arbenigedd marchnata ymroddedig a hyfforddedig mewn recriwtio gofalwyr maeth newydd. Gall yr Asiantaethau Maethu Annibynnol ganolbwyntio eu hymdrechion a'u harbenigedd mewn dod o hyd i ofalwyr maeth newydd sydd ar gael i dimau maethu Awdurdodau Lleol am gost sylweddol.

Y camau mawr rydym wedi'u cymryd i wynebu'r her honno

Mae Timau Maethu Awdurdodau Lleol ledled Cymru wedi penderfynu cymryd camau i gynyddu'n sylweddol nifer ac ystod y gofalwyr maeth sy'n cael eu recriwtio'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol a lleihau ein dibyniaeth ar y sector masnachol.

Mae hyn yn gofyn i dimau maethu a recriwtio Awdurdodau Lleol ledled Cymru feddwl yn fwy, cyfuno eu hymdrechion a'u harbenigedd i greu effaith genedlaethol sylweddol ar yr ymwybyddiaeth bod maethu'n opsiwn ac mai maethu gyda'ch Awdurdod Lleol yw'r opsiwn gorau.

Rydym wedi creu un brand, cyson ar gyfer gwasanaethu maethu Awdurdodau Lleol ledled Cymru a fydd yn ein galluogi i feithrin natur gyfarwydd ac awdurdod, i fod yn

gam cyntaf naturiol. Byddwn yn cefnogi hynny gydag ymgyrch hysbysebu a marchnata genedlaethol barhaus i godi ymwybyddiaeth fod maethu'n beth gwych i'w wneud, y gall bron unrhyw un ei wneud ac mai'r ffordd orau o'i wneud yw gyda tîm maethu eich Awdurdod Lleol.

Trwy gydweithio, byddwn yn cael effaith genedlaethol ledled Cymru trwy bwysleisio manteision ein harbenigedd lleol ymrwymedig a rolau cymunedol. Er mwyn helpu i greu'r effaith genedlaethol hon, rydym wedi ail-frandio gwasanaethau maethu'r Awdurdodau Lleol fel Maethu Cymru.

Ni yw Maethu Cymru

Mae Maethu Cymru'n cyfleu'n glir y ffaith mai darparwr gwasanaethau maethu ydym ni, sy'n gweithredu ledled Cymru gyda diben cenedlaethol. Mae'n cynnig y raddfa a'r ymdeimlad o awdurdod yr ydym am ei greu.

Yn ogystal, mae'n ymestyn ac yn addasu'n hawdd i greu enw lleol i bob tîm maethu Awdurdod Lleol ledled Cymru, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r darlun cenedlaethol.

Pam rydym yn gwneud yr hyn a wnawn?

Caiff llwyddiant Maethu Cymru ei adeiladu ar bob un ohonom yn byw ac yn anadlu ein diben ar y cyd:

"Cydwethio i Adeiladu Gwell Dyfodol i Blant Lleol"

Dyna beth rydym yma i'w wneud; dyma yw ein hunig ffocws, mae'n siarad yn uniongyrchol â natur anhunanol gofalmwr maeth ac mae'n ein gosod ni ar wahân i'r sector masnachol, sydd â blaenoriaethau a nodau ychwanegol yn naturiol.

Rydym yn grŵp cydweithredol o arbenigwyr ar faethu yn ein Hawdurdod Lleol ein hunain, gyda'r timau maethu eraill yn ein hardal a gyda phob arbenigwr maethu ymrwymedig yng Nghymru. Rydym yn cydweithio.

Ond rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'n gofalwyr maeth. Mae pob un ohonom yn rhan o un tîm, ac rydym yn darparu'r holl gymorth a chyfleoedd i ddatblygu sy'n angenrheidiol i greu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant yn ein gofal ar y cyd.

Pwysigrwydd y ffocws ar gwsmeriaid

Er mwyn i hyn weithio, er mwyn i ni allu cyflawni ein nodau a chynyddu'n sylweddol niferoedd y gofalwyr maeth yr ydym yn eu recriwtio a'u cadw yn ein Hawdurdod Lleol, rhaid i ni fabwysiadu ffocws o safon gyson uchel ar gwsmeriaid.

Mae'n hanfodol cofio bod yr argraff gyntaf yn bwysig. Mae'n gam enfawr i unrhyw un godi'r ffôn, neu anfon e-bost, i holi ynghylch dechrau ar y daith i fod yn ofalwr maeth. Mae'n foment dyngedfennol, ac mae'n hollbwysig ein bod ni'n sicrhau bod yr argraff gyntaf yn un cadarnhaol. Eu bod yn teimlo eu bod yn nwylo arbenigwr cadarnhaol, angerddol, hyblyg ac ymrwymedig.

Dyma beth rydym yn cystadlu yn ei erbyn – sector masnachol sy'n cael ei brofi, ei hyfforddi a'i fireinio yn ei ymdrechion i wneud y gorau o bob posibilrwydd. Cyflawnir hyn drwy:

Ei gwneud hi'n hawdd i ddarpar ofalwyr gysylltu.

Bod yn hyblyg yn yr opsiynau a ddarperir ar gyfer y 'foment dyngedfennol' yn y cyswllt cyntaf hwnnw.

Ymateb yn gyflym i'r darpar ofalwr maeth sy'n gwneud y cam cyntaf, petrus hwnnw i estyn allan.

Bod yn ddyfal wrth gael gafael ar y foment dyngedfennol honno a'i throi'n daith i faethu.

Defnyddio iaith sy'n gadarnhaol, yn obeithiol ac o gymorth. “Gallwch. Gwnawn.”

Rhaid i ni wneud cystal, os nad gwell, er mwyn gwneud y gorau o bob posibilrwydd y mae ein hymgyrch genedlaethol a'n gweithgareddau lleol yn ei greu i ni.

Mae creu posibilrwydd newydd yn cymryd amser, ymdrech ac adnoddau.

Ni allwn fforddio colli'r un posibilrwydd na gwastraffu'r un cyfle.

Ni allwn fforddio canolbwyntio ar ddim byd ond ein cwsmeriaid.

SUT ydym yn dod i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid?

Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes wedi bod trwy broses drwyadl o arsylwi'r sector masnachol, profi dulliau newydd gyda'n gofalwyr maeth ein hunain, dysgu beth sy'n gweithio, deall yr hyn y mae angen i ni ei wneud er mwyn gwneud y gorau o bob posibilrwydd, a meithrin pob cyswllt, i sicrhau cymaint o deithiau ymgeisio llwyddiannus â phosibl.

Creu cymaint o ofalwyr maeth newydd cymeradwy ag y gallwn

Mae yna gamau a newidiadau y gallwn eu gwneud i'n Harferion, ein Polisiâu a'n Prosesau a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr, y mae llawer ohonynt wedi'u disgrifio'n nes ymlaen yn y Canllaw Arferion Da.

Ond mae'n cymryd mwy na dim ond y tri chwestiwn hynny; nid yw'n ymwneud dim ond â **BETH** rydym yn ei wneud. Mae'n ymwneud llawer mwy â **SUT** rydym yn ei wneud.

Mae Maethu Cymru wedi'i adeiladu ar bum gwerth, neu ymddygiad, sy'n sylfaen i ni ac a fydd yn ein galluogi ni i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid.

Mae Maethu Cymru yn **Bwerus**, drwy fod yn **Syfrdanol** ac yn **Flaengar** gan aros yn **Ymroddedig** a **Real**.

Nid dim ond geiriau i'w rhoi ar y wal ac i'w hanghofio yw'r rhain.

Mae'r rhain yn yrwyr sylfaenol sy'n llywio ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae angen i ni feddwl, siarad ac ymddwyn bob munud o bob diwrnod.

Rhaid i ni newid amheuan y cyhoedd yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol, gwneud y gorau o'n cryfderau ac addasu er mwyn mynd i'r afael â'n gwendidau. Mae angen i ni herio rhai o'r mythau negyddol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ffyrdd y gall pobl faethu, ac amrywiaeth y bobl a all ddod yn ofalwyr maeth.

Ond ni allwn wneud gormod o addewidion. Rhaid i ni barhau'n onest ac yn ddilys a pheintio darlun go iawn o wir bosibiliadau gofal maeth ledled Cymru, gyda'i holl amrywiaeth a chymeriad lleol.

Mae angen i ni wneud mwy o'n harbenigedd penodol; rydym yn bobl go iawn, sydd wedi cael ein hyfforddi i ddarparu'r canlyniadau gorau i blant a'u gofalwyr maeth. Dyma ein gwaith ni. Dyma beth rydym wedi'i wneud erioed.

A rhaid i ni ymateb i ddynmeg newidiol bywyd modern, cydnabod nad oes un maint yn gweddu i bawb a theilwra ein gwasanaeth i addasu i'r anghenion hynny.

Rhaid i ni addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a pheidio â disgwyl iddynt gyd-fynd â'n blaenoriaethau.

**Mae pawb sy'n gweithio i sefydliad Maethu Cymru,
ym mhob tîm Maethu Cymru ledled y wlad yn**

**Bwerus
Ymroddedig
Real
Syfrdanol
Blaengar**

Bod yn Bwerus

Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol dros bob plentyn sydd angen cartref maethu yn ein gofal. Mae gan bob darpar ofalwr maeth ddymuniad i roi rhywbeth yn ôl, i helpu i adeiladu gwell dyfodol i'r plant hynny. Mae gennym y pŵer i wireddu'r dymuniad hwnnw.

Pan fyddant yn gwneud yr alwad gyntaf honno, maent yn cymryd cam petrus i'r diarwybod. Maent yn cymryd risg; byddant yn teimlo'n chwilfrydig, yn ochelgar, yn agored ac yn nerfus.

Mae gennym y pŵer i dawelu'r nerfau hynny, rhoi sicrwydd a bod ar eu hochr o'r eiliad cyntaf. Er mwyn deall eu pryderon, ac er mwyn i bob gweithred gennym ganolbwyntio ar reoli'r pryderon hynny.

Mae'n foment dyngedfennol. Mae gennym y pŵer i'w dal a'i droi'n daith. Ond mae'r cam cyntaf ar y daith honno'n hollbwysig. Rhaid i ni wneud y gorau o bob ymholiad, ni allwn fforddio colli'r un cyfle. Rhaid i ni...

Fod yn Ymroddedig

Mae penderfynu ar fod yn ofalwr maeth yn gam enfawr, yn fenter i'r diarwybod.

O'r funud y derbyniwn eu hymholiad cychwynnol, ein gwaith ni yw rhoi'r sicrwydd a'r hyder y gallant wneud hyn ac mai ni yw'r bobl iawn i weithio gyda nhw.

Rhaid i ni ymroi i wneud y gorau o'u moment dyngedfennol a gwneud iddynt deimlo eu bod mewn dwylo diogel o'r foment honno ymlaen. Rhaid i ni fod yn ymrwymedig i ymateb ar yr un diwrnod, mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.

"Roeddwn i'n teimlo fel petawn i'n siarad ag arbenigwr, roedd yn gwybod yr ateb i bob cwestiwn ac yn dweud pethau wrthyf nad oeddwn i hyd yn oed wedi meddwl amdanynt! Rwy'n cofio teimlo fy mod i'n ymddiried yn yr unigolyn hwn a llwyddais i

ddeall yn gyflym pam mai maethu i'm Hawdurdod Lleol oedd yr opsiwn gorau i mi."

Rhaid i ni ddefnyddio'r cyswllt cyntaf hwnnw i ddarganfod:

- pryd gallwn ni ddod i'w cyfarfod *nhw* yn eu cartref, naill ai mewn person neu drwy alwad fideo?
- Pryd y maen *nhw* eisiau siarad â ni?
- pa amser sy'n gweithio iddyn *nhw*, ac ar ba ddiwrnod?

Rhaid i ni ymateb i'w hanghenion *nhw*, a pheidio â disgwyl iddynt gyd-fynd â'r hyn y gallwn ei gynnig.

Rhaid i ni gynnig gwasanaeth cyson bob dydd; nid ydym yn gwneud addewidion gwag ar y dechrau ac wedyn yn tangyflawni. Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi pob cam o'u taith. Rhaid i ni...

Fod yn Real

Nid corfforaeth fawr, bellennig ydym ni.

Rydym yn bobl go iawn, sy'n weithgar yn ein cymuned ac mewn cysylltiad â hi. Gallwn siarad â *nhw* am fywyd go iawn 'yn yr ardal hon'; rydym yn byw yn yr un lleoedd â *nhw*, yn defnyddio'r un siopau, yr un ysgolion.

Mae gennym wybodaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd neu'r heriau penodol yn ein hardaloedd lleol, er mwyn i allu darparu sgwrs berthnasol, adeiladu cysylltiadau naturiol a chynnig cymorth amserol bob amser.

Rhaid i ni fod yn hygyrch ac yn agos atoch, siarad mewn iaith naturiol a chlr sy'n cynnig arbenigedd ac awdurdod ond nad yw'n dallu pobl â jargon neu fyfoddau.

Gallwn gynnig eglurder go iawn ar y broses o ddod yn ofalwr maeth, y cymorth a'r hyfforddiant y byddant yn eu cael, y mathau o blant a phobl ifanc sydd angen gofalwr maeth a sut gall bron unrhyw un fod yn ofalwr maeth gwyh.

Bydd llawer o'r wybodaeth hon yn herio eu camdybiaethau, yn gwneud i'r broses deimlo'n bosibl iawn, yn hyblyg, yn amrywiol ac yn gynhwysol. Mewn sawl ffordd, bydd...

Yn Syfrdanol

Mae gormod o fythau ffug yn gysylltiedig â maethu. O ran y mathau o bobl sy'n gallu, neu'n fwy hanfodol, yn methu maethu. O ran y mathau o blant sydd angen eu maethu, darlun cul o drallod ac aflonyddwch. Mae cryn dipyn o'r iaith a ddefnyddir mewn perthynas â maethu yn negyddol, yn canolbwytio ar blant wedi'u niweidio, esgeulustod, cyffuriau a chamdriniaeth.

Gwyddom fod llawer mwy iddo na hyn, felly ein gwaith ni yw eu syfrdanu. Dweud wrthynt pa mor hyblyg yw maethu mewn gwirionedd. Rhoi gwybod iddynt am y gwahanol fathau o leoliadau maethu sydd ar gael, o arosiadau dros nos i ofalu am blant a rhieni gyda'i gilydd.

Eu helpu i weld pa mor amrywiol yw maethu, sut gall bron unrhyw un faethu ni waeth beth yw eu rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu statws priodasol. Bod a wnelo hyn â theuluoedd, grwpiau o frodyr a chwiorydd, twf a chyfleoedd. Bod hyn, yn anad dim, yn ymwneud ag **adeiladu gwell dyfodol i blant lleol.**

Ein gwaith ni yw cychwyn y sgwrs ac adlewyrchu'r egni, yr amrywiaeth a'r pleser sy'n dod o faethu.

Ceir canfyddiadau negyddol o'r Awdurdod Lleol hefyd. Ein bod ni'n araf, dan bwysau, yn rhy brysur, yn cael ein hystyng yn ormodol. Ein bod ni'n ddihiwmor, yn gaeth i'r gorffennol, allan ohoni. 'Y Cyngor'.

Ein gwaith ni yw newid y canfyddiad hwnnw. Mae angen i ni fod yn gyflym, yn ymatebol, yn gadarnhaol, yn egnïol. I ymateb yn gynt nag y byddent yn ei ddisgwyl, mewn ffordd gadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar botensial, sy'n galonogol ac yn dawel.

Ac er ei bod hi'n wir fod gennym hanes hir a bod ein Hawdurdod Lleol yn sefydliad sefydledig iawn, rhaid i ni newid y canfyddiad ein bod i'n gaeth i'r gorffennol. Gyda maethu, y cam pwysicaf yw'r un nesaf, felly rydym yn defnyddio profiad ein gorffennol er mwyn...

Bod yn Flaengar

Mae a wnelo creu gwell dyfodol i blentyn lleol a phrofiad maethu gwell i'r bobl sy'n gofalu amdano, â throi'r dudalen a'u helpu i ysgrifennu'r bennod nesaf yn eu stori.

Er mwyn helpu pobl i symud ymlaen, mae angen i ni edrych i'r dyfodol, gweithio fel tîm gyda'n gilydd a'n cymunedau ehangach o ofalwyr i adeiladu dyfodol gwell i'r plant sydd yn ein gofal heddiw.

A rhaid i hynny ddod drosodd yn y ffordd rydym yn ymddwyn ac yn cyfathrebu hefyd. Rhaid i ni symud ymlaen o ddulliau ac agweddau sy'n ein cadw ni yn y gorffennol ac yn ein dieithrio ni o'n cynulleidfia. Rhaid i ni gofleidio dull newydd a chadarnhaol.

Rydym yn sefydliad atyniadol, agored a modern sy'n barod i weithio gyda gofalwyr maeth cyfoes, sydd wedi'u cymell gan ganlyniadau ac sy'n flaengar. Rydym mewn cysylltiad, gan ymateb ar y cyflymder y maent yn ei ddisgwyl.

Rydym yn ymateb yn gyflym, oherwydd rydym am eu helpu i wneud gwahaniaeth a nawr yw'r amser iawn.

Rydym am iddynt weld y gall maethu weithio iddyn nhw, felly rydym yn addasu i'w hanghenion a'u blaenoriaethau, nid y ffordd arall.

Rydym am iddynt deimlo'n gyffrous am y daith, felly rydym yn ymateb yn frwdfrydig ac yn empathig.

Rydym am iddynt deimlo'n sicr am y camau nesaf, felly rydym yn eu tywys drwy'r broses ac yn esbonio ein harbenigedd a chymorth ymroddedig.

Rydym am iddynt wybod, drwy faethu gyda thîm Maethu Cymru, maent yn gweithio gyda ni i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol.

BETH mae angen i ni ei wneud:

Arferion, Polisïau a Phrosesau

Arferion

Fel y disgrifiwyd yn y canllaw hwn, y cynhwysyn hanfodol i ymgysylltu'n llwyddiannus â darpar ofalwyr maeth yw dull sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n hoelio'r sylw arnyn nhw, eu hanghenion a'u blaenoriaethau.

Sut gallwn ni gyflawni hyn?

Mae canolbwyntio ar gwsmeriaid yn gofyn i ni edrych ar y broses o safbwynt y cwsmeriaid a chreu taith sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar eu hanghenion. Felly, mae angen i ni ystyried pethau fel:

Yr Argraff Gyntaf

Bydd y profiad cyntaf y mae darpar ofalwyr maeth yn ei gael o gysylltu â Maethu Cymru yn eu Hawdurdod Lleol am y tro cyntaf, yn adlewyrchu ar y gwasanaeth maethu cyfan. Os byddant yn cael argraff gyntaf gadarnhaol iawn pan fyddant yn cysylltu â ni, ac yn cael ymateb cyflym, cadarnhaol, difyr ac agored, byddant yn tybio'n naturiol y byddwn yn darparu gwasanaeth da drwy gydol eu taith. Mae'r argraff gyntaf yn bwysig ac yn para.

Cael yr oslef yn iawn

Yn yr alwad gyntaf honno, bydd llawer o wybodaeth fanwl a phersonol yn cael ei chasglu am rywun sy'n methu eich gweld chi neu sydd heb gyfarfod â chi erioed, felly byddwch mor gyfeillgar a naturiol â phosibl. Cymerwch eich amser, peidiwch â rhuthro ac yn hanfodol, peidiwch â chreu'r argraff eich bod yn brysur neu'n rhedeg allan o amser. Nid oes y fath beth â chymryd 'gormod o amser' ar yr adeg dyngedfennol hon yn eu taith gyda ni.

Bydd eich goslef yn sicrhau eich bod yn creu argraff gyntaf gadarnhaol a bydd yn eu helpu i ddod i'ch adnabod chi a'ch tîm Maethu Cymru lleol wrth iddynt ddechrau meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth ac agosrwydd.

Defnyddio iaith syml ac osgoi "jargon"

Mae'r prosesau a'r termau a ddefnyddiwn bob dydd yn gyfarwydd ac yn ystyrllon i ni ond mwy na thebyg y byddant yn meddwl dim i ddarpar ofalwr maeth. Mae'n bwysig iawn bod yn siaradus, defnyddio iaith syml ac osgoi jargon a byrfodddau.

Ar y gorau, gall ddrysu pobl, a'r canlyniad gwaethaf yw y gallai olygu na fyddant yn cymryd mwy o ddiddordeb sy'n golygu y byddwn yn colli darpar ofalwr maeth.

Er enghraifft, gallai hyn olygu iaith fel a ganlyn:

- gofyn i bobl a ydynt yn ffonio am ymholiad cychwynnol, yn hytrach na gofyn a oes ganddynt ddiddordeb mewn cael gwybod mwy am faethu
- trafod y math o "leoliadau" sydd eu hangen arnom yn hytrach na siarad am blant, eu straeon a'u hanghenion
- esbonio "ffurflen F" yn hytrach na'r prosesau asesu gofalus y byddwch yn eu dilyn er mwyn dechrau eu taith ar y trywydd iawn

Sut maent yn teimlo

Rhowch eich hunan yn eu sefyllfa nhw. Mae'n debygol y bydd y person yn nerfus ac wedi penderfynu cysylltu â ni ar ôl llawer o bwyso a mesur a sgysiau gyda ffrindiau a theulu. Byddwch yn ystyriol o hyn a throediwch yn ofalus, gofynnwch gwestiynau a threuliwch fwy o amser yn gwrando na siarad. Myfyriwch ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyh, a fydd yn helpu i ddangos eich bod chi wir yn parchu eu penderfyniad i gysylltu ac yn gwerthfawrogi eu hamser.

Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn y diagramau canlynol. Nid bwriad hyn yw bod yn rhagnodol ond y gobaith yw y bydd yn ddefnyddiol fel man cychwyn i lunio eich strategaeth rheoli ymholiadau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Mae Dull o Recriwtio sy'n Canolbwyntio ar Gwsmeriaid yn Gofyn am y canlynol



Mae arnynt angen...	Felly rhaid i ni roi...
Ymateb Cyflym	Cymerwch alwadau neu atebwch negeseuon e-bost wrth iddynt gyrraedd; dyma eu moment dyngedfennol, felly parchwch eu dewis a byddwch yno iddynt. Os bydd rhywun yn cysylltu dros y ffôn, trwy e-bost neu ffurflen ymholi, rhaid i ni ymateb ar yr un diwrnod. Dyma beth mae ein cystadleuwyr yn ei wneud ac ni allwn fforddio bod yn llai ymroddedig na rhoi llai o frys iddynt. Rhowch eich sylw llawn iddynt a chymaint o amser ag sydd ei angen. Gall y munudau y byddwch yn eu buddsoddi nawr drosi'n flynyddoedd o ofal maeth pwerus, felly cymerwch eich amser a rhoi'ch amser iddynt.
Sicrwydd	Paratowch am ymholiadau, byddwch yn glir o ran eich rôl, byddwch yn gysurus yn esbonio'r broses a'r cyfleoedd mewn iaith glir, syml a chadarnhaol. Byddwch yn barod i ateb amrywiaeth o gwestiynau a chael gwybodaeth wrth lawn os oes angen eglurhad arnoch. Gwrandewch ar unrhyw bryderon a gofidiau, eu cydnabod ac ymateb iddynt, a rhowch sicrwydd iddynt fod y rhain yn ddisgwyliedig. Mae'r penderfyniad i faethu yn brofiad arwyddocaol sy'n newid bywyd. Rhowch lefelau uchel o sicrwydd hyd nes eu bod yn glir o ran y disgwyliadau.
Anogaeth	Byddwch yn egniol ac yn gadarnhaol am faethu, a rhowch enghreifftiau o sut y byddai'n gweithio i ymgeiswyr penodol. Gwrandewch ar eu stori, gofynnwch gwestiynau sgysiol am eu hamgylchiadau presennol a'u profiad bywyd.

	Esboniwch pa mor amrywiol a chynhwysol yw maethu, a rhowch enghreifftiau go iawn. Nodwch eu cryfderau a chefnogwch nhw i weld sut y byddant yn berthnasol i'w taith maethu.
Hyder	Esboniwch yr hyfforddiant a'r cymorth y byddant yn eu cael, eich Cynnig Craidd, eich cymuned faethu, eich sgiliau a'ch profiad mewn maethu, eich gwasanaethau i blant, grwpiau cymorth ac ati. Beth fydd eich gwasanaeth Maethu Cymru yn ei wneud i feithrin hyder? Pam mai eich gwasanaeth Maethu Cymru yw'r opsiwn gorau ar gyfer eu taith faethu?
Gonestrwydd	Rhowch ddarlun cytbwys, realistig; mae maethu'n werth chweil iddyn nhw, eu teulu ac i'r plant y byddant yn cyfarfod â nhw. Daw hefyd â lefel o gyfrifoldeb a all fod yn anodd ar adegau a chyflwyno heriau. Felly, cynigiwch fewnwelediad ac eglurder ar y disgwyliadau o fod yn ofalwr maeth. Sut beth yw maethu gyda'ch gwasanaeth Maethu Cymru yn yr Awdurdod Lleol mewn gwirionedd? Rhowch enghreifftiau o sut mae wedi effeithio ar fywydau yn eich gwasanaeth Maethu Cymru yn yr Awdurdod Lleol a'r canlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u creu. Trafodwch wirioneddau maethu yn eich cymuned, y mathau o blant sydd angen gofal maeth ar hyn o bryd, y mathau o blant neu bobl ifanc a allai fod yn iawn iddynt.
Gwneud penderfyniadau deallus	Byddwch yn dryloyw, rhowch wybod i'r ymgeiswyr am y ffyrdd y mae plant yn derbyn gofal a'r gwahaniaeth rhwng Maethu Cymru a darparwyr masnachol – helpwch nhw i wneud penderfyniad deallus, am y rhesymau iawn.

	Heriwch y mythau a rhowch eglurder ar sail enghreifftiau go iawn. Paratowch rai datganiadau i adlewyrchu 'beth mae ein gofalwyr maeth yn ei ddweud amdanom ni'.
--	---

Ar ôl i chi ofyn y cwestiynau iawn i gyd a chael dealltwriaeth dda o bwy ydyn nhw a beth sy'n eu gyrru nhw, mae'n bwysig dod â'r alwad i ben yn briodol. Lle bo'n bosibl, mae angen i ni wneud y canlynol....

Dod â phethau i derfyn bob amser (trefnu'r ymweliad cyntaf!)

Cynnig ymweliad â'r cartref i ddarpar ymgeiswyr ymhen pum diwrnod gwaith o'r cyswllt cyntaf hwnnw bob tro oni fydd yr ymgeisydd yn gofyn am ymweliad ar ddyddiad penodol y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw. Cofiwch, mae'n bosibl y bydd hefyd yn siarad â gwasanaethau maethu eraill ar yr un pryd. Pa mor gyflym ydych chi'n credu y byddant yn trefnu ymweliad? Allwn ni fforddio bod yn arafach?

Os ydych chi'n teimlo y gallai fod problem trefnu ymweliad â'r cartref o fewn pum diwrnod gwaith, rhaid i chi drafod â'ch rheolwr i osgoi oedi.

Efallai na fydd rhai ymgeiswyr yn teimlo'n barod am ymweliad â'r cartref mor gynnar â hyn. Mae'n bwysig gwrandao ar eu hanghenion ac ymateb iddynt, felly yn yr achos hwn, gwnewch gynllun i'w ffonio'n ôl ar adeg sy'n gweithio iddyn nhw neu rhowch wahoddiad iddynt ddod i noson wybodaeth lle gallant gymryd cam petrus pellach a chael gwybod mwy.

Mae'n hollbwysig trefnu'r alwad yn ôl neu ddigwyddiad dilynol yn syth, yn hytrach na'i adael i'r darpar ymgeisydd eich ffonio chi; mae hyn yn cadw'r momentwm i fynd, yn eich cadw chi ar flaen y gystadleuaeth ac yn cadw eu diddordeb yng ngwasanaeth Maethu Cymru.

"Roeddwn i'n maethu ag IFA cyn trosglwyddo i'm Hawdurdod Lleol flynyddoedd yn ddiweddarach. Doedd gen i ddim syniad o gwbl o'r gwahaniaeth rhwng y ddau a doedd neb wedi dweud

wrthyf am y gwahaniaethau hyn pan wnes i gais. Rwy'n dal i fethu â chredu pa mor gyflym y daeth yr aelod o staff IFA i'm tŷ; daeth allan ar yr un diwrnod! Doeddwn i ddim yn siŵr a oeddwn i'n barod i gymryd y cam nesaf, ond roeddwn i, a gwnaethant bethau mor hawdd i mi. Erbyn i'r Awdurdod Lleol fy ffonio'n ôl rai dyddiau'n ddiweddarach, roeddwn i eisoes wedi cofrestru i gael hyfforddiant cychwynnol IFA ac roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi gwneud ymrwymiad, ei bod hi'n rhy hwyr."

Prosesau

Er ein bod yn cydnabod y bydd gan bob tîm Maethu Cymru fân wahaniaethau o ran strwythur y tîm, aelodau'r tîm, eu sgiliau a'u profiad, mae'n bwysig iawn i bob un ohonom elwa ar y gwelliannau a ddaw o weithio mewn ffordd sy'n gyson ag arferion gorau, sydd wedi'i adeiladu ar brofi a dysgu.

Mae'r daith drwy'r broses isod yn seiliedig ar raglen o brofi, myfyrio, addasu a dadansoddi data. Mae'n cynnig man cychwyn defnyddiol i bob gwasanaeth Maethu Cymru wrth i ni ddatblygu a gwella ein gallu i wneud y gorau o bob ymholiad newydd gan ddarpar ofalwr maeth.

Cyswllt Cyntaf

Digwyddiad Electronig / Wyneb yn Wyneb

Beth i'w Goladu

- Rhaid wrth wybodaeth gryno, rhif ffôn a/neu e-bost er mwyn cael ffordd o ymateb. Bydd coladu'r ddau beth yn sicrhau bod gennych yr hyn sydd ei angen arnoch i wneud y gorau o'r cyfleoedd dilynol
- Trefnwch gerdyn gwybodaeth hawdd i'w gwblhau maint cerdyn post ar gyfer digwyddiadau, a pheidiwch â chael eich temptio i ofyn gormod o gwestiynau personol yn gyhoeddus – trefnwch ddyddiad i alw
- Rhowch ystyriaeth i GDPR a gwnewch yn siŵr fod gennych system gydsynio ar waith

Beth i'w Ddarparu

- Rhaid wrth system ymateb awtomataidd ar gyfer pob ymholiad electronig – gwnewch yn siŵr fod y neges yn dweud pryd a sut y byddwch yn dod yn ôl atynt.
- Os bydd y cyswllt cyntaf yn digwydd mewn digwyddiad, gellid rhannu'r cerdyn post yn ddau, un ochr i chi ac un iddyn nhw, gyda'r ddwy ochr yn cadarnhau'r dyddiad dilynol ac yn gwneud ymrwymiad.
- Gall llyfrynau fod yn ffordd wych o arddangos eich arlwy o'u dosbarthu i'r cyhoedd

Camau dilynol

- Crëwch 'grŵp ymholiadau e-bost' ac ychwanegwch bob ymholiad ato hyd nes iddynt gael eu cymeradwyo neu eu 'heithrio' o'r negeseuon dilynol
- Trefnwch gyfuniadau e-bost ar adegau prysur hollbwysig
- Trefnwch gyfuniadau e-bost i hysbysebu digwyddiadau agored/digwyddiad rhithwir
- Mae cael systemau ar waith i gefnogi'r uchod yn hanfodol. Ystyriwch wneud y defnydd gorau o brosesau a gwiriadau ar ôl y panel a monitro unrhyw geisiadau i 'eithrio'.

Cyswllt dros y Ffôn

Yn uniongyrchol i'r gwasanaeth / Galwadau yn ôl

Beth i'w Goladu

- Mae'r cam hwn yn fanwl a bydd yn darparu gwybodaeth i'r asesiad os penderfynwch dderbyn yr ymgeiswyr a bwrw ymlaen i asesu
- Mae angen i chi ofyn y cwestiynau cywir i wybod a yw'r ymgeisydd yn iawn i faethu ac i sicrhau bod modd diwallu'r holl ofynion rheoleiddio. Gellir canfod ffurflen enghreifftiol yn yr atodiad.

Beth i'w Ddarparu

- Amser a phreifatrwydd i gael y wybodaeth a'i hystyried yn llawn
- Cymaint o fanylion â phosibl am y dasg a'r modd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi ei ofalwyr maeth
- Dyddiad i ymweld â'r cartref, gan sicrhau bod pob aelod ohono'n bresennol. Gellir canfod cerdyn trafod enghreifftiol yn yr atodiad

Camau Dilynol

- Unrhyw wiriadau ymarfer lleol rhagarweiniol arferol
- Trefnwch ddyddiad ac amser i alw'n ôl (os nad oes HV) a sicrhau eich bod yn eu cofnodi
- Ychwanegwch e-bost cysylltu at y grŵp 'ymholiadau'
- Anfonwch lyfryn (os nad ydynt wedi'i gael yn barod) ynghyd â llythyr personol i gadarnhau pwy fydd yn ymweld â'r cartref a phryd.

Ymweliad Cyntaf â'r Cartref

Wyneb yn Wyneb / Rhithwir

Beth i'w Goladu

- Darlun cyn llawned â phosibl o'r teulu cyfan, y tŷ i gyd a'r ardd
- Cymerwch amser i gael barn a theimladau pawb ar yr aelwyd
- Cofnodwch gymaint o fanylion â phosibl i hysbysu'r asesiad sy'n mynd rhagddo. Gellir canfod ffurflen enghreifftiol yn yr atodiad.

Beth i'w Ddarparu

- Cymaint o enghreifftiau â phosibl o sut mae maethu'n gweithio a realiti'r dasg
- Gwybodaeth mewn perthynas â chyfleoedd y mae eich gwasanaeth yn eu darparu i ymgeiswyr siarad â gofalwyr maeth cymeradwy
- Gwybodaeth fanwl am y broses a hyd arferol y cyfnod cyn cael cymeradwyaeth
- Tryloywder – rhannwch y cofnod o'ch ymweliad a gofynnwch am eu cytundeb

Camau Dilynol

- Gadewch fanylion ar sut i gysylltu â chi os bydd ganddynt ragor o gwestiynau
- Sicrhewch fod penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â symud ymlaen i'r cam nesaf ymhen 48 awr. Dylid darparu hyn yn ysgrifenedig a thros y ffôn
- Rhowch fanylion a dyddiadau hyfforddiant paratoi i faethu
- Sicrhewch weithdrefn gadarn i gloi unrhyw ymholiad sy'n ystyried enw da'r gwasanaeth

Proses a gweithdrefn ar gyfer Ymholiad Cychwynnol

Caiff pob cwestiwn a ofynnir i ddarpar ymgeiswyr ei wneud am reswm a chaiff gwybodaeth ddefnyddiol ei chofnodi, ei monitro a'i gwerthuso. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i asesu bod negeseuon y gwasanaeth a'r ymgyrchoedd recriwtio yn cyrraedd y bobl iawn, felly mae'n hollbwysig eich bod yn cwblhau popeth cyn llawned â phosibl.

Hyd yn oed os na fydd darpar ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd e.e. nid oes ganddo ystafell wely wag – rhaid i chi barhau i nodi gwybodaeth sylfaenol e.e. ei enw, cyfeiriad a manylion cyswllt o leiaf er mwyn eich galluogi i gadw cofnod o bwy sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth petai pethau'n newid iddo yn y dyfodol. Dylai pob darpar ymgeisydd gael pecyn gwybodaeth, oni fydd unrhyw bryderon i atal hyn.

Paratoi ar gyfer Hyfforddiant Maethu

Mae'r broses o fod yn ofalwr maeth yn pwyso'n drwm ar angen i gael gwybodaeth, dysgu am y rôl a deall yn llwyr yr effaith y gallai maethu ei chael arnynt. Dylid cynnig cyfleoedd i fynychu cwrs hyfforddiant paratoi trwyadl cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymweliad â'r cartref. Mae'r hyfforddiant hwn yn cadarnhau i'r ymgeiswyr mai dyma yw'r penderfyniad cywir iddynt ac mae'n rhoi cyfle hanfodol i fyfyrrio a dysgu gan gymheiriaid.

Os caiff hyn ei ddarparu'n rhy hwyr yn y broses, gall arwain at wastraff amser, egni a'r adnoddau ariannol a fuddsoddir mewn ymgeiswyr nad ydynt yn hollol siŵr eto a yw hyn yn iawn iddynt.

Mae hyfforddiant cyn cymeradwyo o ansawdd uchel ar gael yng Nghymru a dylai gwasanaethau archwilio'r manteision o sicrhau'r adnodd hwn a gyflwynir yn broffesiynol. Bydd buddsoddi mewn hyfforddiant hygyrch, amserol, cynhwysfawr ac o ansawdd uchel yn sicrhau bod eich gwasanaeth yn paratoi ymgeiswyr yn rymus ac yn dangos ymrwymiad iddynt.

Strwythurau, Systemau ac Adnoddau

Rhoddwyd cryn ystyriaeth i'r strwythur gwasanaeth delfrydol er mwyn i'r gwasanaeth a gyflawnir allu bod ar ei orau. Mae'r negeseuon o'r ymchwil yn glir; mae adeiladu gwasanaethau ag adnoddau da, sy'n wydn, yn brofiadol, yn canolbwyntio ar blant ac yn hynod ymatebol yn hollbwysig i gyflawni canlyniadau da i blant. Mae llawer mwy i sefydliad Maethu Cymru na dim ond niferoedd yr ymholiadau a chymeradwyaethau, mae a wnelo â'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud i blant pan fydd gan ein gwasanaethau a'n staff y sgiliau, y profiad a'r amgylchedd iawn i fod ar eu gorau.

Negeseuon o'r ymchwil

Yn 2020, cyhoeddwyd canllaw arferion da yn seiliedig ar ganfyddiadau astudiaeth ledled y DU o 52 o adolygiadau achos yn ymwneud â 98 o blant a fu farw neu a gafodd niwed difrifol pan oeddent yn byw gyda gofalwyr maeth, mabwysiadwyr neu warcheidwaid arbennig. Dyma'r astudiaeth gyntaf o'i bath, gan ymestyn dros gyfnod o 12 mlynedd rhwng 2007 a 2019 gyda 75% o'r plant yn yr astudiaeth yn byw gyda gofalwyr maeth cymeradwy yng Nghymru a Lloegr. Nododd themâu cyson mewn perthynas â dewis ac asesu gofalwyr; cymorth a goruchwyliaeth; a systemau ac arferion y gwasanaethau.

Caiff negeseuon allweddol lefel uchel ynghyd ag argymhellion arferion eu crynhoi isod.

Recriwtio, Asesu a Chymeradwyo – Negeseuon allweddol

- *Yr angen am asesiadau trwyadl sydd â ffocws ar ddiogelu*
- *Asesiadau a gynhelir gan weithwyr proffesiynol medrus sy'n deall disgwyliadau'r rôl; yn gallu gweithio'n awdurdodol gyda darpar ofalwyr; yn sicrhau trafodaethau agored a gonest; yn cymhwyso arfarniad beirniadol a dadansoddiad effeithiol; gan gynnal chwilfrydedd proffesiynol drwy'r amser*
- *Gwasanaethau sy'n sicrhau y caiff aseswyr eu goruchwyllo gan staff profiadol, wedi'u hyfforddi'n addas, sydd â mynediad i adnoddau priodol*

- *Paneli gydag aelodau medrus, profiadol ac wedi'u hyfforddi'n addas i'w galluogi i ymarfer eu swyddogaeth yn gadarn, gan sicrhau y creffir yn ddigonol ar wybodaeth yn ystod y broses gymeradwyo*

Trosi i ymarfer

Mae ffordd Maethu Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn **dull tîm cyfan**. Credwn mai *dull tîm cyfan* sy'n cynnig y strwythur gorau posibl i gyflawni canlyniadau ac i fodloni'r gofynion allweddol a ddynodwyd o ymchwil. Wrth oruchwylio, mae'r gweithwyr cymdeithasol yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr a goruchwylio gofalwyr maeth cymeradwy a rhoddir cyfle iddynt feithrin y ddealltwriaeth orau o'r dasg. Gellir cymhwyso'r wybodaeth hon a'r profiad hwn ar draws y ddwy elfen i ddod yn ofalwyr maeth hyblyg y gwydn sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

O gyfuno hyn â goruchwylwyr medrus, systemau ar gyfer sicrhau ansawdd a gynhelir drwy bob haen a phanel maethu trwyadl, rydych yn creu'r amgylchedd delfrydol i gyflawni arferion gorau a chanlyniadau da i blant.

Mae'r dull tîm cyfan hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymarfer **sy'n canolbwyntio ar y gydberthynas**, sy'n ffactor allweddol i gyflawni gwell canlyniadau. Yn ystod y broses asesu maethu, mae'r ymgeiswyr yn buddsoddi amser sylweddol mewn meithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth â gweithiwr cymdeithasol. Maent yn rhannu manylion preifat am eu plentyndod, bywyd personol, eu cryfderau a'u gwendidau. Mae'r gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu'n cael gwybodaeth am y teulu sy'n hanfodol ar gyfer paru a bodloni anghenion cymorth parhaus.

Lle bo'n bosibl, dylem osgoi torri'r gydberthynas rhwng y gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu a'r teulu maethu newydd ei gymeradwyo. Mae gwasanaethau sy'n galluogi i'r gydberthynas hon barhau am y 6 mis cyntaf o leiaf ar ôl cymeradwyo, ac yn hwy yn ddelfrydol, yn debygol o gynnig y dechrau gorau posibl i ofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo ac felly'r lleoliad maethu gorau i blentyn.

Mae gweithwyr cymdeithasol sy'n asesu aelwydydd maethu ac sydd wedyn yn cael y dasg o gyflawni'r rôl cymorth parhaus yn debygol iawn o fuddsoddi mwy i mewn i'w rôl. Mae gwybod y byddwch yn cael y dasg o weithio gyda'r ymgeiswyr hyn ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo'n cynyddu'r dyheadau i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn barod i wneud eu gorau fel gofalwyr maeth.

Ceisiwch gyflawni.....	Ceisiwch osgoi.....
Gwasanaeth lle mae gofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo a'u haelwydydd yn cael eu cefnogi gan yr un gweithiwr cymdeithasol a wnaeth eu tywys drwy'r daith asesu.	Gwasanaeth sy'n gweithredu mewn adrannau sy'n pasio ymgeiswyr o un adran i'r llall ac yn y blaen. Gan arwain at wahanol weithwyr, llai o gydberthynas, diffyg parhad, gwybodaeth ac ymddiriedaeth.
Pam.....	Pam...
• Caiff plant eu paru'n dda pan fydd y gweithwyr cymdeithasol yn gwybod cryfderau a gwendidau'r teulu a'r ffordd y mae'n gweithio. • Mae Gofalwyr Maeth yn rhoi lefelau cynyddol o ymddiriedaeth mewn gweithiwr cymdeithasol maent yn ei barchu ac sydd wedi datblygu cydberthynas â nhw, ac felly maent yn fwy tebygol o gredu y gallant ofalu am blentyn penodol neu gyflawni tasg benodol. • Gellir darparu cymorth ystyriol o ansawdd pan fydd ei angen fwyaf ar y gofalwyr maeth, yn syth ar ddechrau eu taith. • Mae'r aseswr yn gwybod am yr holl ffactorau pwysig sy'n gallu gwneud gwahaniaeth a nhw sydd yn y lle gorau i wybod beth i'w ddweud a gwneud, er mwyn meithrin gofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo.	• Mae'n cymryd amser i feithrin cydberthynas a phrin y gellir ei gyflawni yn y cyfnod trawsnewid byr rhwng diwrnod y panel maethu a pharu plentyn â theulu maeth am y tro cyntaf. • Gall disgwyl i ofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo newid gweithiwr cymdeithasol ar yr un pryd â gofyn iddynt gamu i fyd diarwybod rhoi gofal i'w plentyn cyntaf deimlo'n anodd ac yn bryderus. • Gall bylchau wrth ddyrannu olygu, mewn gwirionedd, nad yw gofalwyr maeth newydd eu cymeradwyo'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen fwyaf. • Bydd angen amser ar weithiwr newydd ei ddyrannu i ddysgu normau'r teulu, personoliaeth, dulliau cymorth a'r ffactorau paru hollbwysig. • Gall pwysau gan y gwasanaeth olygu nad oes gan staff newydd eu dyrannu'r gallu i ddarllen asesiad Ffurflen F.

Mae Maethu Cymru'n dyheu i gyflwyno gwasanaeth gyda phobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym am symud i ffwrdd o normau ymarfer sy'n gweddu i angen y gwasanaeth a symud tuag at gyflawni ansawdd i blant a gofalwyr maeth. I rai gofalwyr maeth, gall newidiadau mewn gweithiwr a chael cymorth yn gynnar iawn yn y cam cymeradwyo gan weithwyr nad ydynt yn eu hadnabod yn ddigon da i'w paru, eu cefnogi a'u meithrin, arwain at roi'r gorau iddi'n gynnar. Mae cyfraddau cadw a recriwtio yn bwysig i Maethu Cymru; maent yn mynd law yn llaw.

Os yw eich gwasanaeth wedi'i strwythuro mewn ffordd lle gwneir gwaith recriwtio ac asesu prif ffrwd gan un person ac/neu gan nifer bach o aelodau o staff, gall fod yn fwy agored i wendidau. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau ar allu, ymatebolrwydd a chadernid, ynghyd â chyfyngiadau wrth baratoi ar gyfer y dasg sydd i ddod. Daw cadernid mewn niferoedd a chan dîm sy'n rhannu dealltwriaeth, nodau a gwerthoedd. Mae Maethu Cymru yn ceisio tyfu'r maes darpariaeth gwasanaeth hwn ac i rai, gall hyn olygu bod angen ad-drefnu staff i sicrhau'r gallu i fodloni gofynion.

Cwestiynau i'w hystyried

- A oes gennym dîm o weithwyr proffesiynol medrus a phrofiadol sy'n deall disgwyliadau'r dasg o faethu, gan weithio ag awdurdod, gonestrwydd a chwilfrydedd proffesiynol drwy'r amser?
- A oes gennym strwythur sy'n sicrhau bod y staff hyn ar gael (ar sail rota neu debyg), bob dydd, ar bob diwrnod gweithio i ateb ac ymateb i ymholiadau cychwynnol yn brydlon, ag arbenigedd, dull sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a barn broffesiynol?
- A oes gennym y gallu i'r aelodau profiadol hyn o staff gynnal ymweliadau cychwynnol (â'r cartref) ymhen pum diwrnod gwaith o'r cyswllt cyntaf neu cyn gynted â phosibl?
- A oes hyfforddiant o safon uchel, cystadleuol, a drefnir yn rheolaidd cyn cymeradwyo ar gael i ymgeiswyr ymhen rhai wythnosau o'u cais neu'n gynt os yn bosibl?
- A oes gennym y gallu i ddyrannu a chwblhau asesiadau ymhen 4 i 6 mis, gan aelodau o staff sydd â gwybodaeth rymus am y dasg, sy'n cynnal ein gwerthoedd ac yn paratoi'r ymgeiswyr yn llawn am y dasg sydd i ddod?
- A yw ein llwythi gwaith yn hwyluso ar gyfer cynnal arferion ystyrlon, o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y person i asesu a goruchwylio gofalwyr maeth?

- A yw pawb yn y gwasanaeth yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn effeithiol gan staff profiadol ac wedi'u hyfforddi'n briodol?
- A oes gennym ddigon o allu ar y panel i ymateb i'r gofynion o fewn yr amserlenni?
- A yw aelodau ein panel yn fedrus, ydyn nhw'n cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol, yn cyflawni'r dasg yn fanwl, a yw aelodau'r panel yn amrywiol ac yn cynrychioli llais y plentyn, yn brofiadol ym maes gofalu ac yn ofalwyr maeth?
- A oes gennym ddulliau sicrhau ansawdd ar waith ym mhob cam o'r broses? A yw'r rhain yn cael eu deall, eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd?

Capasiti

Mae llawer o wasanaethau wedi cydnabod yr effaith y gall maethu gan bobl gysylltiedig/perthnasau ei chael ar y gallu i fodloni gofynion ym maes maethu prif ffrwd ac mae'r rhan fwyaf wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Bydd gwaith ar amserlen y llysoedd yn gosod gofynion cystadleuol bob amser ac, yn ôl pob sôn, mae gwahanu'r meysydd cyflwyno gwasanaeth yn gweithio'n dda, gyda manteision wedi'u profi a gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r tabl isod yn dangos dau **opsiwn strwythur gwasanaeth maethu prif ffrwd yn unig**. Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r ffordd orau o fodloni capasiti a gofynion a ffyrdd o sicrhau cadernid mewn timau. Mae'r ddau opsiwn yn ystyried yr un nifer o staff fel mewnbyn ac maent yn cyflwyno gwahanol allbynnau yn seiliedig ar gyflunio a defnyddio adnoddau.

ADNODDAU SYDD AR GAEL A THASGAU	OPSIWN 1 – Swyddogaethau asesu a chymorth ar wahân	OPSIWN 2 – Dull tîm cyfan
10 gweithiwr cymdeithasol llawn amser	- 7 aelod o staff sy'n ymroi i gefnogi cyfartaledd o 17 aelwyd yr un - 3 aelod o staff sy'n ymroi i recriwtio ac	- 10 aelod o staff sy'n ymroi i gefnogi a recriwtio gyda llwythi gwaith o 12 aelwyd i gefnogi a phob un yn cwblhau 2 asesiad llawn bob 6 mis

	asesu, a phob un yn cwblhau 5 asesiad llawn bob 6 mis	
Capasiti i gefnogi aelwydydd	120	120
Capasiti i ymateb i ymholiadau ac ymweliadau cychwynnol	1 diwrnod llawn ym mhob 3 Wedi'u rhannu rhwng staff recriwtio ymroddedig	1 diwrnod llawn ym mhob 10 Wedi'u rhannu rhwng yr holl staff
Capasiti i asesu a chymeradwyo aelwydydd	30	40

Mae'r strwythur enghreifftiol hwn yn dangos y gall dull tîm cyfan gefnogi cynnydd mewn cynhyrchiant a chanlyniadau, gyda capasiti asesu ychwanegol gwerthfawr yn cael ei gyflawni.

O ran dynodi'r strwythur gorau i'ch Awdurdod Lleol, bydd gan bob gwasanaeth Maethu Cymru wahanol ofynion, adnoddau a thargedau i'w hystyried. Y nod yn y pen draw yw sicrhau y gallwch gyflawni eich nodau. Mae gwneud y defnydd gorau o'r profiad, y wybodaeth a'r cysylltiadau sydd ar gael fel rhan o sefydliad Maethu Cymru yn lle gwyh i ddechrau wrth gynllunio gwasanaethau.

Cymwysterau Staff

Mae pwysigrwydd staff medrus, profiadol, gyda chymwysterau addas wedi'i ddynodi trwy gydol y canllaw arfer da hwn. Gellir dod o hyd i ragor o eglurder a gwybodaeth reoleiddiol yn nodyn ymarfer AFA ar Gymwysterau Staff Maethu. [Maethu - AFA Cymru](#)

Dywedodd yr arweinwyr a hyrwyddodd ac a ddatblygodd ddull tîm cyfan, cydnerth i ymateb i ymholiadau a recriwtio mai dyma oedd y ffactor allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau ac mae'r data hefyd yn adlewyrchu'r neges hon. Ni fydd ymgeiswyr â diddordeb yn aros hyd nes i rywun ddychwelyd o'i wyliau neu hyd nes i'r

unig aelod o staff sy'n gyfrifol am recriwtio fod ar gael. Byddant yn cysylltu â'r gwasanaeth nesaf ar eu rhestr.

Er mwyn i'r staff deimlo'n hyderus i gyflawni'r rôl recriwtio, mae angen iddynt feddu ar wybodaeth fanwl a phrofiad. Mae'n llawer anos cynnig yr un lefel o sicrwydd a mewnwelediad wrth asesu a pharatoi teulu maeth os nad ydych wedi cefnogi teulu maeth drwy'r mathau o sefyllfaoedd cymhleth a heriol y bydd disgwyl iddynt eu hwynebu.

Prin y gall unrhyw beth ddisodli'r awdurdod a ddarperir gan brofiad a mewnwelediad. Mae'n grymuso'r staff i allu cynnig ymatebion gonest a **phwerus**; rhoi enghreifftiau **real** a sicr; cyfleu **ymroddiad** y tîm a'r gymuned o ofalwyr maeth; **synnu** a chyffroi ymgeiswyr; yn y pen draw, dangos heb gwestiwn fod eich gwasanaeth yn **flaengar** ac mai hwn yw'r gwasanaeth dethol iddyn nhw.

Aseswyr Annibynnol

Nid yw'r potensial am dwf sylweddol wrth recriwtio gofalwyr maeth erioed wedi bod mor real ag ydyw ar hyn o bryd. Ynghyd â hyn, daw'r angen i ystyried yr effaith ar wasanaethau a'n capasiti i ymateb. O gadw hyn mewn cof, gwnaethom estyn allan at ymarferwyr i archwilio'r sy'n gweithio'n dda a'r hyn sy'n sbarduno pryderon mewn perthynas â dyrannu asesiadau i aseswyr annibynnol.

ASESWYR ANNIBYNNOL

Beth sy'n gweithio'n dda	Beth yw'r pryderon
- Gall fod yn gost effeithiol o ran nifer yr asesiadau os bydd pawb yn bwrw ymlaen i gymeradwyo/cwblhau - Gall gynnig rhywfaint o hyblygrwydd nad yw ar gael fel mater o	- Gall cysondeb ac ansawdd yr asesu amrywio/leihau gan fod aseswyr yn allanol i'r gwasanaeth a'r sefydliad - Mae angen sicrwydd ansawdd ychwanegol yn aml – sy'n effeithio ar gapasiti - Gall mynediad i oruchwyliaeth, cymorth a hyfforddiant gael ei gyfyngu/peidio â chael ei ddarparu neu ei dderbyn - Mae buddsoddiad yng ngwerthoedd ac ymddygiadau Maethu Cymru, ymrwymiad iddynt

drefn gan y staff mewnol o bosibl - Gall safbwynt annibynnol y tu allan i'r sefydliad hyrwyddo barn deg a chytbwys ac ni chaiff ei ddylanwadu gan ffactorau sefydliadol - Nid yw'n effeithio ar gapasiti cymorth	a dealltwriaeth ohonynt yn annhebygol o gael eu cynnal na bod mor gryf â'r staff mewnol - Yn aml, gwnânt waith i sefydliadau amryfal ac nid oes ganddynt reswm dros fod yn ffyddlon i'r Awdurdod Lleol - Caiff y dilyniant i'r ymgeisydd, y gwasanaeth a'r gallu i gynnig dull sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ei dynnu ymaith neu gyfyngu arno. - Diffyg atebolrwydd am gynnwys yr asesiad a pharatoi'r ymgeisydd - Yn gofyn am gymorth gweinyddol ychwanegol - Cyfyngir ar fynediad i systemau a chyfarpar yr Awdurdod Lleol - Gall ystyriaethau diogelwch data i ddefnyddio dyfeisiau personol i wneud gwaith asesu greu rhwystrau - Nid yw'n ymroddedig i'r gwasanaeth maethu, efallai na fydd ar gael yn ôl yr angen - Set sgiliau, gwybodaeth sylfaenol a dealltwriaeth anhysbys o'r disgwyliadau maethu
--	--

Sicrhau Ansawdd a Monitro

Mae sicrhau ansawdd a chynnal safonau, gan hefyd reoli'r gofynion cynyddol ar eich gwasanaeth yn debygol o fod yn her i'w chroesawu ond yn her sylweddol. Gellir ystyried nifer o awgrymiadau am brosesau, systemau a dulliau ar gyfer monitro.

- Mae **penodi uwch ymarferwr neu rywun o swydd â gradd gyfartal i** oruchwylio adran recriwtio'r tîm yn arfer cyffredin mewn sawl Awdurdod Lleol. Gall y deiliad swydd hwn sicrhau bod safonau arferion da yn cael eu hymgorffori a'u cynnal. Gall sicrhau cysondeb mewn arferion, rhoi goruchwyliaeth ac arweiniad, bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau i barhau â cheisiadau / asesiadau neu eu cau i lawr. Goruchwylio ac ymateb i'r broses o goladu a dadansoddi data perfformiad. Mae'r oruchwyliaeth hon yn hanfodol wrth ddatblygu dull gwasanaeth cyfan o recriwtio ac asesu.
- Creu neu ymgorffori templedi safonol ar gyfer goruchwyliaeth** Mae sicrhau ansawdd pob agwedd ar recriwtio ac asesiad ffurflen F yn ffordd wych o

sicrhau y caiff arfer da ei gyflawni, ei gynnal a'i ddeall. Rydym wedi cynnwys rhai templedi enghreifftiol ar ddiwedd y canllaw hwn.

- **Mae ymgorffori cyfleoedd arferol i gael adborth**, fel holiaduron neu adborth electronig ar bob cam o'r broses recriwtio yn sicrhau dysgu a datblygu ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i recriwtio ac i mewn i gadw. Gall ymgymryd â chyfweliadau ymadael pan fydd gofalwyr maeth yn gadael y gwasanaeth gynnig mewnwelediad helaeth, p'un a ydynt yng nghamau cynnar yr ymholiad neu sawl blwyddyn i mewn i'w gyrfa maethu.
- **Sefydlu staff, dysgu a datblygu parhaus.** Mae angen i'n hymddygiadau a'n gwerthoedd Maethu Cymru gael eu deall yn fewnol er mwyn iddynt allu cael eu cyflawni'n allanol. Dylid cynnig rhaglen sefydlu rymus i'r staff gyda chyfleoedd rheolaidd ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae cyfrifoldebau diogelu sylweddol ynghlwm â recriwtio ac asesu darpar ofalwyr maeth i blant agored i niwed. Dylai mynychu hyfforddiant gychwynnol a gloywi ar asesiad ffurflen F yn rheolaidd gael ei ystyried yn ofyniad sylfaenol.

Rheoliadau Maethu

Bwriad y canllaw hwn yw nodi beth yw arferion da mewn perthynas â recriwtio gofalwyr maeth. Bydd yr adran ganlynol yn amlinellu'r prif ofynion rheoleiddiol a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r dasg hon. Mae canllawiau arferion llawn mewn perthynas ag **asesu a phanel maethu** ar gael i'w darllen yma [Canllaw-Arferion-Da-Rheoliadau-Paneli-Maethu AFA](#)

Mae dwy set o reoliadau'n berthnasol i Ddarpariaeth Faethu'r Awdurdodau Lleol

- **Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018.** Fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2019/545. Cyhoeddir y rhain dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWB(W)A 2014) gyda Chod Ymarfer cysylltiedig.
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/1339/introduction/made/welsh>
- **Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018** Cyhoeddir y rhain dan SSWB(W)A 2014 ac maent yn berthnasol i'r Awdurdod Lleol a Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol.
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/1333/contents/made/welsh>

Ymholiad Cychwynnol/Cofrestru Diddordeb

Nid oes cyfeiriad yn y rheoliadau at y broses lle mae pobl â diddordeb yn gwneud eu hymholiadau cychwynnol a'r gwasanaeth yn ymateb. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn hanfodol bod digon o wybodaeth yn cael ei rhannu a'i chasglu yn y cam Ymholiad Cychwynnol er mwyn galluogi asesiad o addasrwydd cynnar, sy'n cael ei gytuno ar y cyd.

Ar y cam cynnar iawn hwn, dylai gwasanaethau gynnig cyngor ffeithiol i ymgeiswyr am faethu a'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig ohonynt ac o'r gwasanaeth o ran asesu a chymorth. Dylai hyn fod ar ffurf pecyn gwybodaeth neu adnodd ar-lein y gall ymgeiswyr droi ato, ynghyd â thrafodaeth ag aelod o'r staff.

Os nad yw'r aelod o staff yn ymarferwr gwaith cymdeithasol sydd â phrofiad o faethu, dylai canllawiau clir mewn perthynas â disgwyliadau a chyfyngiadau fod ar waith. Rhaid i'r gwasanaethau allu bod yn fodlon o ran pam nad ydynt yn gofyn i'r cam asesu cychwynnol hwn gael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol.

Ystyriaethau Cymhwysedd

Prin iawn yw'r meini prawf cymhwysedd i fod yn rhiant maeth sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau:

- Deunaw oed neu'n hŷn heb gyfyngiad oedran uwch
- Ni ddylai unrhyw berson, nac aelod o aelwyd y person fod wedi cael collfarn nac wedi cael rhybudd o drosedd benodedig.

Yn wahanol i fabwysiadu, nid oes meini prawf penodol i fod yn breswilydd sy'n hanu o Ynysoedd Prydain neu'n breswilydd yno fel arfer, ond os na all ymgeisydd roi tystiolaeth o statws preswilydd sefydlog, bydd hyn yn effeithio ar ei allu i gynnig sefydlogrwydd gyfer maethu hirdymor yn yr un ffordd â mabwysiadu.

Dylai gwasanaethau sicrhau y caiff unrhyw ofynion cymhwysedd ychwanegol, sy'n benodol i'w Hawdurdod Lleol eu creu yn unol â'r angen i hyrwyddo maethu fel dewis cadarnhaol. Mae'r rhain yn gweithio orau pan nad ydynt o reidrwydd yn gyfyngol, pan maent yn adlewyrchu amrywiaeth yn gadarnhaol ac yn ystyried pob parti sy'n ymholi i faethu gyda'r gwasanaeth, boed yn brif ffrwd neu'n bersonau cysylltiedig.

Ymweliadau Cychwynnol (Ymweliadau â'r Cartref)

Mae'n hanfodol bod ymarferwyr profiadol gyda chymwysterau addas yn cynnal Ymweliadau Cychwynnol oherwydd byddant yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth hollbwysig a pherthnasol y bydd angen iddynt ei hystyried, ei dadansoddi a phenderfynu neu wneud argymhellion arni.

mae rheoliad 29 (2) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu'r Awdurdod Lleol (Cymru) 2018 yn nodi... nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai— (b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w wneud,

Ystyrir bod yr agwedd hon ar gyflwyno'r gwasanaeth (*gwaith i'w gyflawni*) yn dasg asesu gwaith cymdeithasol.

Nid yw'r broses dau gam newydd yn newid cyfrifoldebau presennol yr ymarferwyr i sicrhau bod egwyddorion didwylledd a gonestrwydd yn berthnasol, a gwneir penderfyniadau da yn seiliedig ar wybodaeth, sy'n cael ei chasglu, ei rhannu a'i dadansoddi.

Dylid cynnal yr ymweliadau hyn yng nghartref yr ymgeisydd ei hun. Os gwneir cais fel cwpl, dylai'r ddau ymgeisydd fod yn bresennol am y drafodaeth lawn ac os yn bosibl, dylid cyfarfod ag unrhyw blant sydd eisoes yn y cartref.

Penderfyniadau i Fwrw Ymlaen neu Gau

Mae'n bwysig cofio ar y pwynt hwn ac ar Gam 1 yr asesiad, ein bod ni'n ystyried ymgeiswyr a "all fod yn addas" i faethu a dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer y cam hwn o'r broses.

Mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn gymwys i ystyried a yw "cynnig" yr ymgeisydd yn cyfateb i'w hamcanion recriwtio a gall benderfynu peidio ag asesu neu gall gyfeirio at wasanaeth arall. Mewn gwirionedd, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd yng ngoleuni'r angen presennol i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth maethu ym mhob ardal. Ar y pwynt hwn, ni ddylai penderfyniadau i gau fod yn seiliedig ar statws cymeradwyo a ragfyngwyd. Mae'n gyffredin i ymgeiswyr fod yn ansicr am eu galluoedd maethu ar y pwynt hwn a dylid nodi unrhyw ystod oedran y maent yn ei ffafrio neu gyfyngiadau o ran cymeradwyo a'u harchwilio'n drylwyr fel rhan o'r broses asesu lawn.

Dylid dod i gytundeb ynghylch penderfyniad i asesu neu beidio ar y cam hwn ar lefel Uwch Ymarferwr/Rheolwr Tîm a dylid eu cynnwys wrth roi gwybod i'r ymgeiswyr. Dylid gwneud penderfyniad i wrthod ystyried ymgeisydd ar gyfer Cam 1 y broses asesu dim ond pan fod tystiolaeth glir nad yw ymgeiswyr yn ddiogel nac yn addas i ofalu am blant ac na fyddai unrhyw ddarparwr gwasanaethau maethu rhesymol yn eu hystyried yn addas i faethu.

Nid yw'n dderbyniol i wneud unrhyw archwiliadau cyn i broses Cam 1 ddechrau a heb ganiatâd amlwg yr ymgeiswyr.

Dylai fod gan y darparwyr gwasanaethau maethu gyfres o ffurflenni, yn eu plith:

1. Llythyr yn dilyn Ymweliad Cychwynnol yn rhoi gwybod nad yw'r ymgeiswyr yn gymwys nac yn addas, gan roi rhesymau clir am y penderfyniad.

Mae angen tystiolaeth glir hefyd o'r penderfyniad a wnaed ar y ffeil / system.

2. Llythyr yn dilyn Ymweliad Cychwynnol yn rhoi gwybod bod yr ymgeiswyr yn addas i symud ymlaen, gan roi'r dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant paratoi nesaf.
3. Os bydd Ymweliad Cychwynnol yn gadarnhaol ar wahân i rai manylion ymarferol allweddol a fyddai'n atal asesiad rhag dechrau, dylai'r darparwr gwasanaethau maethu anfon llythyr yn awgrymu bod yr ymgeiswyr yn dychwelyd ar ôl cyfnod o amser lle bydd yr ymgeiswyr wedi addasu elfen angenrheidiol o'u bywyd (e.e. gwaith ar y tŷ neu symud; rhoi'r gorau i smygu). Dylai'r llythyr nodi y bydd y gwasanaeth yn cysylltu â'r ymgeiswyr eto ar ôl y cyfnod o amser y cytunwyd arno os nad ydynt hwy eu hunain wedi cysylltu.

Telerau Cymeradwyo

Un o'r ffactorau hollbwysig i'w hystyried wrth geisio cyflawni gweithlu o ofalwyr maeth cadarn a gwydn yw'r telerau o ran cymeradwyo gofalwyr maeth. Mae cynnig yr opsiynau gorau posibl o ran lleoliad yn gofyn am delerau cymeradwyo eang, sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gellir gwneud y trefniadau gorau posibl i baru teuluoedd â'r plant, yn rhoi cyfle ar gyfer twf mewn sgiliau a galluoedd ac yn symleiddio'r gwasanaeth i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ar unrhyw adeg. Mae'n gyfle arall i gynnal cysondeb a thryloywder i bawb dan sylw.

Mae angen gofalmwr maeth ar blant sy'n gallu dweud "ie" i ofalu amdanynt; gofalmwr maeth sydd wedi'u paratoi'n dda; wedi'u hasesu'n dda; gyda statysau cymeradwyo sy'n *galluogi'r* tîm i wneud y penderfyniad a chwblhau'r gwaith o baru yn y lle cyntaf.

Dylai'r telerau cymeradwyo adlewyrchu asesiad llawn a thrylwyr sy'n cloi ar dri phrif ffactor

1. Y gallu i ddarparu parhad, neu ofal byrdymor / sy'n canolbwyntio ar y dasg
2. Y sgiliau a'r gallu i ofalu am ystod oedran penodol o blant
3. Y gallu i ofalu am nifer benodol o blant hyd at uchafswm o 3

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Mae'n werth ceisio cyfyngu ar yr amrywiaeth o fathau neu dermau penodol i'r ddau brif rai a'r rhai a gydnabyddir amlaf sef **byrdymor** (sy'n canolbwyntio ar y dasg) a **hirdymor** (parhad). Pan fydd y gwasanaethau'n cyflwyno ystod o 'fathau' o ymarfer, gall olygu bod mynediad i ofalmwr maeth yn gyfyngedig oherwydd y label a roddwyd arnynt, yn hytrach na'u set sgiliau neu a ydynt ar gael.

- Byrdymor – ystyrir mai dyma'r term safonol i bawb sydd wedi'u cymeradwyo i faethu. Mae a wnelo â'r dasg, o awr o ofal yn ystod y dydd, arhosiad dros nos neu am rai blynyddoedd. Mae gofal seibiant, egwyl fer, cymorth i gyd yn fathau o faethu a ddaw o dan y term 'byr' ac o ddefnyddio'r term generig, byddwch yn sicrhau bod modd llenwi'r lleoedd gwag a bod modd paru plant gyda theuluoedd.
- Hirdymor – mae'r term hwn ar gyfer yr aelwydydd hynny sydd wedi'u hasesu i gynnig parhad i blant. Mae'n gofyn am ddimensiwn ychwanegol o asesu a dadansoddi i gael tystiolaeth o'r ymrwymiad sylweddol ac ni ddylid ei gymhwyso'n ddiotal. O gymharu â maethu prif ffrwd, bydd y mwyafrif helaeth o'r asesiadau o bersonau cysylltiedig yn archwilio gallu'r ymgeisydd i gynnig parhad o'r dechrau oherwydd y bydd anghenion y plentyn eisoes yn hysbys ac oherwydd y gydberthynas bresennol sy'n bodoli. Mae hyn yn llai cyffredin i ymgeiswyr newydd prif ffrwd; ond gall rhesymau'r ymgeisydd fod yn glir o'r dechrau.

Tasgau Arbenigol

Os yw eich gwasanaeth yn rhoi unrhyw gynlluniau arbenigol ar waith sy'n gofyn am gynnal asesiadau ychwanegol, fel lleoliadau Rhiant a Phlentyn, gellir hefyd adlewyrchu'r rhain yn statws cymeradwyo'r gofalwr maeth os yw'r meini prawf asesu wedi'u bodloni. Mae hyfforddiant a chyngor penodol ar gael mewn perthynas â'r maes arbenigol hwn, gan fod llawer o ffactorau cymhleth i'w hystyried. Dylai'r statws cymeradwyo egluro a wneir y dasg ychwanegol hon ochr yn ochr â'r ddarpariaeth faethu arferol NEU fel dewis arall pan nad oes plant eraill wedi'u gosod. Byddai'r canllawiau'n argymhell yr ail opsiwn oherwydd gall ffactorau paru a risgiau fod yn rhy fawr i'w lliniaru.

Ystod Oedran

Mae llawer o wasanaethau wedi symud tuag at ddull cynhwysfawr wrth ystyried cymeradwyo'r ystod oedran mewn maethu. Maent yn asesu (ac yn bwysicaf oll yn paratoi) yr holl ymgeiswyr yn erbyn eu gallu i ddarparu gofal maeth i blant a phobl ifanc 0-18 oed, gan amlygu dewis neu ffactorau paru sylweddol yn aml. Mae'r dull hwn yn cydnabod nad yw oedran yn golygu rhyw lawer yn y broses o baru mewn gwirionedd oherwydd gall oedran gweithredu ac oedran cronolegol plant fod yn ddwy ystyriaeth wahanol. Mae hefyd yn adlewyrchu y gall dymeg yr aelwyd newid gydag amser, bod plant biolegol yn tyfu'n hŷn neu'n cael eu geni, bod ymrwymïadau gwaith yn cynyddu neu'n gostwng, ac y gall ffactorau paru newid o ddydd i ddydd.

I'r gofalwyr maeth hynny sydd wedi'u cymeradwyo i ddarparu gofal hirdymor, rhaid i'r ystod oedran yn ôl diffiniad y dasg fod yn 0-18 oed. Rhaid i'r gwasanaethau hefyd ystyried y gofyniad i ddarparu gofal y tu hwnt i 18 oed, dan y trefniadau Pan Fyddaf yn Barod. Dylid cynnal y sgysiau hyn yn gynnar iawn i sicrhau bod modd sicrhau sefydlogrwydd yn unol â'n cyd-destun yng Nghymru a'n disgwyliadau.

Pan fydd gwasanaethau'n ymgorffori disgwyliadau ymarfer i asesu yn erbyn statysau cymeradwyo eang i'r rhai sy'n cynnig darpariaeth fyrdymor, mae'n hwyluso'r broses paru ac yn rhoi lle i dyfu a datblygu. Pan fydd aelwydydd yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo yn unol ag ystod oedran eang, nid yn unig y maent ar gael i ystyried pob opsiwn, ond gallant hefyd gynnig gofal ad hoc i blant y tu allan i 'barth cysur' penodedig i fagu eu hyder, gan gefnogi ymarfer cadarn a gwydn. **Y ffactor hollbwysig**

yw sicrhau bod asesiad trwyadl wedi'i wneud a bod y dystiolaeth yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r statws cymeradwyo a argymhellir.

Plant yn y cartref

Mae oedran y plant (biolegol/llysblant/maeth/mabwysiedig) sydd eisoes yn byw yn y cartref yn ffactor arall sy'n dylanwadu ar ymarfer recriwtio ac weithiau fe'i defnyddir i roi cyfyngiadau oedran heb eu gwarantu ar deuluoedd o'r pwynt ymholi. Mae rhai gofalwyr maeth yn datgan y cyfyngiad hwn gan mai'r prif reswm am ddewis maethu gydag IFA, yn hytrach nag Awdurdod Lleol, gan y byddai'r Awdurdod Lleol ond yn eu cymeradwyo ar gyfer plant iau na'u rhai nhw. Mae angen rhagor o ymchwil mewn perthynas â'r ymarfer hwn gan fod canfyddiadau croes mewn llawer o'r ymchwil hanesyddol. Mae rhai canfyddiadau ymchwil o 2015 ymlaen yn nodi y dylem fod yn ystyried symud oddi wrth 'normau' wedi'u dyddio a chodi'r cyfyngiadau diangen hyn. Ceir tystiolaeth o broesau sefydlog i baru teuluoedd gyda phlant o bob oedran, y rhai sy'n agos mewn oedran, neu'n bellach i ffwrdd, yn hŷn ac yn iau. Canfu'r astudiaethau hefyd (yn annisgwyl) bod y tebygolrwydd o aflonyddwch ar y lleoliad yn lleihau po fwyaf y bydd plant yn byw mewn aelwyd maethu.

Yn y pen draw, y brif neges i'w chynnwys yn ein hymarfer yw y caiff sefydlogrwydd ei gyflawni trwy brosesau paru da, wedi'u hategu gan bolisi a gweithdrefn glir sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar gyfathrebu, cynllunio ac ymgynghori â phlant ac oedolion. Nid yw telerau cymeradwyo cyfyngol yn creu sefydlogrwydd.

Rhywedd

Mae'r canllawiau presennol yn cynghori mai'r dull gorau i'w gymryd yw un sy'n tybio bod gofalwyr maeth yn cael eu cymeradwyo (a'u hasesu) i ofalu am bob rhywedd. Os yw eich gwasanaeth yn dymuno datgan hyn yn benodol o ran cymeradwyo, mae nodyn ymarfer CoramBAAF (PN70) yn nodi *it is better to use the term “any gender” rather than “either gender”, as this will not exclude non-binary trans young people.* Gallai ffactorau paru atal gofalwr maeth rhag gofalu am rywedd penodol ar rai adegau neu gallai gofalwyr maeth ddangos set sgiliau penodol neu ffafriaeth. Gall y

gwasanaeth wneud y defnydd gorau o'r ffactorau hyn heb eithrio plant neu bobl ifanc.

Capasiti

Caiff niferoedd y plant y gellir gofalu amdanynt yng nghartref y gofalwyr maeth eu hasesu yn ôl set sgiliau a lle. Fel arfer, nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael yw'r ffactor allweddol, ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei adlewyrchu, ynghyd â nodi a fyddai lle i frodyr a chwiorydd eu rhannu hefyd. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i leoli uchafswm o dri phlentyn nad ydynt yn perthyn a byddai hyn yn gofyn am gael tair ystafell wely ar wahân i fod yn unol ag arferion da.

Enghreifftiau o eiriad addas

1 plentyn (2 os ydynt yn frodyr a chwiorydd), 0-18 oed, byrdymor neu hirdymor

Yn yr enghraifft hon, mae gan y gofalwyr maeth un ystafell wely ar gael i faethu sydd hefyd yn ddigon mawr i letya dau blentyn yn gyfforddus os ydynt yn frodyr/chwiorydd. Maent wedi dangos eu gallu i ofalu am amrywiaeth eang o blant ar sail sy'n canolbwyntio ar y dasg ac i gynnig parhad.

2 blentyn (neu grŵp o frodyr a chwiorydd), 5-18 oed, byrdymor

Yn yr enghraifft hon, mae gan y gofalwyr maeth ddwy ystafell wely ar gael i faethu ac mae'r ddwy ystafell yn ddigon mawr i letya plant sy'n rhannu ystafell wely. Mae hyn yn golygu ar yr amod y gellir rhannu ystafell wely, gallai grŵp o frodyr a chwiorydd dros y terfyn arferol o dri gael eu lleoli yno. Mae'r gofalwyr yn defnyddio e-sigarêts ac felly ni ellir eu hystyried yn addas i blant dan bum mlwydd oed. Gwnaethant hefyd ddangos eu gallu i ymgymryd â maethu sy'n canolbwyntio ar y dasg yn unig ac mae ganddynt y sgiliau a'r gallu i gefnogi cyfnodau pontio ond nid i gynnig parhad ar hyn o bryd.

Pa bynnag ddull y bydd eich gwasanaeth yn ei ddewis, mae'n bwysig cofio na ellir newid telerau cymeradwyo cychwynnol gofalwr maeth heb adolygiad blynyddol llawn a chyflwyniad yn ôl i'r panel, wedi'i ddilyn gan gymeradwyaeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae er lles pawb i ystyried dull blaengar o asesu, paratoi a chymeradwyo gofalwyr maeth.

Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i bob gofalwr maeth a gweithiwr maethu proffesiynol sydd wedi rhoi o'u hamser i ddatblygu'r cyhoeddiad hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich mewnwelediad a'ch gonestrwydd. Ni fyddai wedi bod yn bosibl heb arbenigedd Matt Clark yn Narrative Edge a Sarah Thomas yn AFA Cymru, a weithiodd ar y cyd â'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol a'r Swyddogion Marchnata Rhanbarthol sy'n cynrychioli gwasanaethau maethu'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol

Alastair Cope – Cwm Taf Morgannwg

Mel Panther – Gogledd Cymru

Nicola England – Gorllewin Morgannwg

Nina Kemp-Jones – Gwent

Rob Hinds – Caerdydd a Bro Morgannwg

Sue John-Evans – Canolbarth a Gorllewin Cymru

Swyddogion Marchnata Rhanbarthol

Jill Jones – Gogledd Cymru

Amy McArdle – Caerdydd a Bro Morgannwg

Caroline Quint – Gorllewin Morgannwg

Leanne McFarland – Canolbarth a Gorllewin Cymru

Amy Battrick – Gwent

Rachel Crosby – Cwm Taf Morgannwg

Elusen yng Nghymru sy'n hyrwyddo arferion da ym mhob rhan o'r gwaith o gynllunio parhad i blant a phobl ifanc yw'r Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu (AFA Cymru). Mae hefyd yn cynnig cyngor, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd i gefnogi arferion gorau.

Cyfeiriadau a Darllen Pellach

[Adult-Health-Reports-practice-note.pdf \(afacymru.org.uk\)](#)

[Creating stable foster placements: learning from foster children and families who care for them - Social Care Online \(scie-socialcareonline.org.uk\)](#)

[Fostering-Panel-regs-Good-Practice-Guide-final-2020.pdf \(afacymru.org.uk\)](#)

[AFA-fostering-qualification-of-staff.pdf \(afacymru.org.uk\)](#)

[LD-Framework E-1.pdf \(afacymru.org.uk\)](#)

[Making good assessments | CoramBAAF](#)

[ENG-Preparation-to-Foster-2021-Dates-002.pdf \(afacymru.org.uk\)](#)

[Safeguarding Children living with Foster Carers, Adopters and Special Guardians: Learning from case reviews 2007–2019 | CoramBAAF](#)

[Safeguarding Children living with Foster Carers, Adopters and Special Guardians: A guide to reflective practice | CoramBAAF](#)

[The Fostering Panels \(Establishment and Functions\) \(Wales\) Regulations 2018 \(legislation.gov.uk\)](#)

[The Local Authority Fostering Services \(Wales\) Regulations 2018 \(legislation.gov.uk\)](#)

[Undertaking checks and references in fostering and adoption assessments | CoramBAAF](#)

[Undertaking a fostering assessment in Wales | CoramBAAF](#)

Atodiad - Templedi Enghreifftiol

Mae'r templedi isod wedi cael eu creu fel enghreifftiau i'w defnyddio yn ôl angen lleol. Gellir eu addasu fel ei angen.

1. Templed Ymholiad Cychwynnol
2. Templed Ymweliad Cychwynnol (Cartref)
3. Templed strategaeth recriwtio
4. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Initial Enquiry template

Client record No:	
Brief Reason not to send Pack:	

Enter LA Logo here

INITIAL ENQUIRY TO FOSTER

Date of Enquiry		Name of Person Completing Form	
What language would you want to receive communication in?			
Written communication	English ☐ Welsh ☐	Verbal communication	English ☐ Welsh ☐
How many spare bedrooms do you have?		Accommodation: Privately Owned ☐ Private Rented ☐ Social Rented ☐	
1. Personal Details		Applicant 1	
	Mr ☐ Mrs ☐ Ms ☐ Miss ☐	Mr ☐ Mrs ☐ Ms ☐ Miss ☐	
First name(s)			
Surname			
Any other previous names			
DOB			
Address			
Postcode			

Do you live	Within..... (Name of LA) ☐ If not name of local authority:	
Telephone No. (Daytime/Evening)		
Email Address		
2. Marital status	Applicant 1	Applicant 2
Marital status		
Length of relationship		

3. Own children	Applicant 1				Applicant 2			
Do you have your own children	Name	Living at home?	Gender	DOB	Name	Living at home?	Gender	DOB
4. Work / experience	Applicant 1				Applicant 2			
Current Occupation								
Availability to Foster								
Relevant qualifications								
5. Transport	Applicant 1				Applicant 2			
Do you drive & have access to a car?								

6. Health	Applicant 1	Applicant 2
Are you in good health? <i>(Record current health conditions. Are they taking any medication?)</i>		
Do you smoke/use electronic cigarettes?		
7. Pets		
Do you have any pets? If yes, provide details		
8. Statutory checks	Applicant 1	Applicant 2
Have you had any previous involvement with Social Services?		
Do you consent to us carrying out internal database checks?		
9. Criminal convictions	Applicant 1	Applicant 2
Do you have any criminal convictions /pending? Provide details		
10. Interest in fostering	Applicant 1	Applicant 2
Why do you want to foster?		

Have you previously applied to Foster? If yes with whom?		
If you are transferring, what is your current approval status? Provide name of IFA/Local Authority		
11. Fostering role		
Have you thought about	Full time ☐ Part time fostering ☐ Sibling groups (2 or more spare rooms) ☐ Children with disabilities ☐ Parent & Child Placements ☐ Other ☐ Unsure ☐	
<i>Explain different types of fostering</i>		
12. How did you hear about Foster Wales (enter LA name.....)?		
Radio ☐ On-line advert ☐ IFA Transfer ☐ Social Media ☐ TV ☐	Local Newspaper/magazine ☐ Website ☐ Other (specify): Recruitment Event ☐ Which event: Recommended by another LA Carer ☐ Friend ☐ Internal Staff ☐	
Foster Carer's name:		
13. Information pack		
Would you like the information pack posted or emailed	Posted ☐ Emailed ☐	
14 Equal opportunities	Applicant 1	Applicant 2

<i>(advise them that they don't have to answer)</i>		
What is your gender?	Male ☐ Female ☐ Other ☐	Male ☐ Female ☐ Other ☐
Do you consider yourself to be.....	Heterosexual/straight ☐ Gay, Lesbian, Homosexual ☐ Bisexual ☐ Transgender ☐ Prefer not to say ☐	Heterosexual/straight ☐ Gay, Lesbian, Homosexual ☐ Bisexual ☐ Transgender ☐ Prefer not to say ☐
Ethnic origin		
Religion		
15. Decision making		
Decision	Proceed to HV ☐ Counsel out ☐ Other Actions	
APPLICANT WISHES TO ATTEND NEXT INFORMATION EVENING? YES ☐ NO ☐		

RECRUITMENT ACTIVITY LOG

Name of Applicant: _____

ID No: _____

SSW Name: _____

Date & Signature	Activity – e.g. tel call, home visit etc.	Details

Initial (Home) Visit Template

Add Maethu Cymru / Foster Wales LA logo here

INITIAL VISIT FORM

SSW NAME:

DATE OF VISIT:

- Explain who you are and your role in the service.
- Explain Foster Wales..... (add LA Name) is Local Authority and the benefits of fostering with an LA not IFA (Core Offer)
- Offer opportunity for any questions

Initial observations:

Household members present:

PERSONAL DETAILS	1 ST APPLICANT	2 ND APPLICANT
Current surname <i>(last name or family name)</i>		
First name(s)		
All previous names <i>(if applicable)</i>		
Date of Birth		
Present address		

Telephone number		

Significant previous relationships

Explain the need to contact ex partners for references

Any issues/concerns. Do they know addresses/details etc

Record response:

About your home and locality

What are the family's current sleeping arrangements?

Do own children share a room or need to share a room to be able to foster

Discuss and record response

Health and Safety

Ask to look around the home and garden

***Any obvious hazards? Do you own any weapons/ firearms? Ongoing building work?
General cleanliness? Explain the need to complete a full H&S check. An electrical
safety report & gas certificate is essential
Discuss and record response***

Do you have any pets? YES/NO

***Explain the need to complete a pet assessment. Do the applicants have any
concerns about this? Record response***

Do you hold a current driving licence and have access to a vehicle?

You would be required to have an insurance policy that includes business.

***Discuss the requirements to transport children to school, contact, appointments,
activities etc.***

What is your current occupation?

What are your current working hours/ proposed working hours when fostering?

Will your work commitments impact your availability to Foster. Will a reduction in

working hours have a financial impact? Provide details of how this will be managed.

Lifestyle and Activities

Discuss do they own a caravan? E.g Attend religious activities/ events / children's clubs, sporting activities.

How will fostering impact on this and how will your family fit in with the needs of children looked after?

What experience do you have of looking after your own, or other people's children?

What activities do you do as a family? How do you spend weekend time? Attitudes to discipline? How do you discipline your own children?

Discuss and record response

What impact do you think fostering could have on your family?

e.g. school age children, adult children and grandchildren, sharing parents, jealousy, impact of allegations, safe care, eg can't share a bed with a parent if birth child is unwell

Have you discussed fostering with your immediate and wider family?

Discuss family responses.

What support networks do you have locally? How often do you use them?

Practical and emotional support. Availability of significant adults both evening and daytime that may provide care e.g. school pick-ups, overnight stays, emergency support. Explain assessment process/ checks that must be carried out.

Discuss and record response

What is your attitude towards a multicultural society and diversity?

Discuss gender/race/disability/sexuality/gender identity/ substance misuse – Give examples of scenarios e.g. a child is unsure of their sexuality, etc. How does the Applicant demonstrate flexible/inclusive attitude?

Motivation to foster

Discuss applicants reasons to foster. How long have they wanted to foster for? What has prompted them to come forward at this time?

Applicants understanding of foster carer role?

Explain issues of abuse/neglect/behaviour and question how they will deal with this.

Consider own children in this discussion, effect on them, ability to change lifestyle/routines

Working with parents and professionals. Discuss and record response (confirm training will be given)

Literacy levels in relation to foster caring role?

Ability to complete recordings/are applicants computer literate? Do applicants have own I.T. equipment. Commitment to attend meetings and ability to contribute, Discuss and record response (confirm training will be given)

Have you had any training, or do you have any qualification, that you think might be relevant to fostering?

Are applicants aware that they have to attend Preparation to Foster training, provide details of the LA requirements. Give approximate length to panel details and inform applicants that they will need to be flexible for Form F assessment sessions? Are there any known difficulties with this?

We have a duty to make sure that fostered children are not placed with people who may harm them in any way. For this reason we have to carry out extensive

checks on anyone who applies to become a Foster Carer. We need to check that people are who they say they are, and that they have not committed any offences against children.

These checks will be initiated early on in your assessment.

Your children

Name of child	Date of Birth	Do they reside with you? If no provide address details.	Name & address of current school

To the best of your knowledge, have you or any of your children/family ever been involved with social services? (tick relevant box)

☐

Yes

☐

No

If yes, please fill in details below

Name	Date of Birth	Name of Local Authority/Council	Addresses

Health

	1 st Applicant	2 nd Applicant
Do you have any current health/ medical issues? <i>Explain the need for a full medical physical and mental health wellbeing, how stress is managed?</i> Please provide the name and address of your current GP		
Do you smoke/ use electronic smoking devices? <i>Explain carers who smoke cannot care for under 5's</i> Record response		
Do you consider yourself to have a disability? <i>Record details and any effect on ability to foster</i>		
Are you at present attending the doctor for any reason?		
Do you have any treatment/ medication prescribed regularly by the doctor?		

Cautions and convictions.

Have you, or a member of your household, ever been cautioned, had a criminal conviction or been the subject to a criminal enquiry? If so, please give details below. (The Rehabilitation of Offenders Act 1974 does not apply to people who will have access to children, so even minor offences, or those which took place a long time ago must be disclosed).

Name	Date of caution/conviction/enquiry	Details

Have you, or a member of your household, ever been disqualified from caring for children?

Name	Date of caution/conviction/enquiry	Details

Please ensure that the applicants have read and understood the content of the home visit record and wish to proceed to the next stage.

Applicants signature.....Date.....

Applicants signature..... Date.....

SW Notes -

Explain that the applicants will receive confirmation letter in the post.

Give training dates verbally and follow up in writing.

Give an idea of assessment timescales and what the assessment involves:

-weekly home visits/ Health & Safety checks/CRBs/AH's

Confirm that applicants can contact you with any further questions.

SSW Assessment of home visit:

Proceed to training? Yes/No

Any other actions required?

Manager/Supervisor Comments

SSWDate.....

Recruitment Senior/ Team Manager Date.....

Maethu (NODWCH YR ENW)
Strategaeth Recriwtio a
Chadw
(nodwch y dyddiad cychwyn) -
(nodwch y dyddiad olaf)

NODWCH ENW'R AWDUR / DYDDIAD

Cynnwys

	Rhif(au) Tudalen(nau)
Cyflwyniad	
Nodau ac Amcanion	
Adran 1: Dadansoddiad	
Adran A: Perfformiad recriwtio gofalwyr maeth	
Adran B: Cadw a chefnogi gofalwyr maeth	
Adran C: Diwallu anghenion plant	
Adran 2: Strategaeth	
Adran A: Cynlluniau recriwtio	
Adran B: Cynlluniau cadw	
Adran C: Effaith ariannol y strategaeth	

Cyflwyniad

Mae'r strategaeth recriwtio a chadw hon yn amlinellu dull Maethu **NODWCH ENW'R GWASANAETH** o fynd ati i sicrhau cynhالياeth gofalwyr maeth mewnol i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn **NODWCH ENW'R GWASANAETH**. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r camau gweithredu a gymerir, a'r rhai hynny a gynllunnir i sicrhau fod gofalwyr

maeth yn cael ei cadw. Mae'r wybodaeth o fewn y strategaeth hon yn ymwneud â maethu prif lif, ac nid yw'n adlewyrchu darpariaeth maethu personau cysylltiedig.

Mae'r strategaeth hon yn ffurfio un rhan mewn ystod o strategaethau i wella'r dewis lleoliadau i blant a phobl ifanc [NODWCH ENW'R GWASANAETH](#), gan gynnwys (nodwch y strategaethau yma)

Nodau ac Amcanion

- Adolygu'r hyn sy'n gweithio'n dda a datgelu unrhyw bryderon neu heriau
- Hysbysu cyfeiriad recriwtio dros gyfnod [NODWCH Y CYFNOD AMSER YMA](#) - sut, pryd, pwy, beth ac ym mhle
- Uchafu nifer y plant mewn gofal y gellir eu lleoli o fewn darpariaeth [NODWCH ENW'R GWASANAETH](#)
- Ein helpu i ddeall anghenion plant sydd angen gofal maeth
- Sicrhau ein bod yn recriwtio gofalwyr maeth sy'n meddu ar y sgiliau a'r galluoedd cywir i ddiwallu anghenion ein plant
- Sicrhau fod ein proses recriwtio mor effeithlon â phosib
- Sicrhau fod ein strategaeth recriwtio yn cyd-fynd â strategaeth leoli gyffredinol [NODWCH ENW'R GWASANAETH](#) a Chynllun Busnes cyffredinol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Sicrhau fod [NODWCH ENW'R GWASANAETH](#) yn effeithiol yn ariannol ac yn cefnogi cynaliadwyedd
- Cynllunio ac adolygu'r cyfleoedd cefnogi a datblygu a gynigiwn i ofalwyr maeth er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r gofalwyr sy'n cael eu recriwtio gennym

Mae'r strategaeth wedi ei rhannu'n ddwy ran:

Rhan 1	Dadansoddiad
Adran A	Perfformiad recriwtio gofalwyr maeth
Adran B	Diwallu anghenion plant mewn gofal
Adran C	Cadw a chefnogi gofalwyr maeth

Rhan 2	Strategaeth / cynlluniau
Adran A	Cynlluniau recriwtio
Adran B	Cynlluniau cadw
Adran C	Effaith Ariannol

Adran 1: DADANSODDI

Adran A: Perfformiad Recriwtio Gofalwyr Maeth

Perfformiad recriwtio

Blwyddyn	Ymholiadau	Aelwydydd a gymeradwywyd		Uchafswm lleoliadau a gymeradwywyd	Aelwydydd gyda chymeradwyaeth wedi'i derfynu	Uchafswm y lleoliadau a gollwyd	Colled / ennill net o ran lleoliadau	Colled / ennill net aelwydydd
		Newydd	Trosglwyddiadau					

Ymholiadau *(Cyfeiriwch at DPAAu dychweliadau misol Maethu Cymru, a rhan 5a set ddata yr NFF)

Dadansoddwch y canfyddiadau ac ystyriwch y cwestiynau a ganlyn:

- A yw nifer yr ymholiadau wedi cynyddu neu leihau?
- Beth allai'r rhesymau fod dros hyn?
- A yw'r gwasanaeth wedi profi colled neu ennill net o ran aelwydydd / lleoliadau sydd ar gael?
- Beth allai'r rhesymau fod dros hyn?
- Unrhyw negeseuon neu ganfyddiadau arwyddocaol eraill?
- A yw eich marchnata wedi'i dargedu mewn ffordd sy'n denu ymgeiswyr all ddiwallu anghenion eich plant mewn gofal, neu a ydych yn derbyn niferoedd uchel o ymholiadau gan ymgeiswyr anaddas?

Ymholiadau *(Cyfeiriwch at DPAAu dychweliadau misol Maethu Cymru, a rhan 5a set ddata yr NFF)

Blwyddyn	Ymweliadau cychwynnol a gwblhawyd	Ymweliadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn saith diwrnod calendr i'r ymholiad cychwynnol	Ymweliadau cychwynnol a gwblhawyd oddi allan i saith diwrnod calendr i'r ymholiad cychwynnol	Ymweliadau cychwynnol a gaewyd

Dadansoddwch y canfyddiadau ac ystyriwch y cwestiynau a ganlyn:

O'r ymweliadau cychwynnol a gwblhawyd oddi allan i saith diwrnod calendr i'r ymholiad cychwynnol:

- Faint o'r rhain oedd yn ôl cais yr ymgeiswyr?
- Faint o'r rhain oedd o ganlyniad i broblemau gyda chapasiti'r gwasanaeth?
- Faint o'r rhain oedd o ganlyniad i gyfnod o wyliau cenedlaethol?
- Sut fydd eich gwasanaeth yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau capasiti?

O'r ymweliadau cychwynnol a gaewyd:

- Faint o ymweliadau cychwynnol a gaewyd o ganlyniad i ymgeisydd yn tynnu yn ôl?
- Faint o ymweliadau cychwynnol a gaewyd o ganlyniad i benderfyniad gwasanaeth i beidio parhau?
- A oes unrhyw themâu yn dod i'r amlwg; er enghraifft, cysondeb o fewn y gwasanaeth o ran sicrwydd ansawdd yr ymgeiswyr i barhau i'r cam asesu?

Asesiadau *(Cyfeiriwch at DPAau dychweliadau misol Maethu Cymru, a rhan 5a set ddata yr NFF)

Blwyddyn	Nifer yr asesiadau llawn a gwblhawyd o fewn chwe mis	Nifer yr asesiadau llawn a gwblhawyd mewn mwy na chwe mis	Nifer yr asesiadau a gaewyd cyn eu cwblhau

O nifer yr asesiadau llawn a gwblhawyd mewn mwy na chwe mis:

- Faint o'r rhain oedd allan o reolaeth y gwasanaeth?
- Faint o'r rhain oedd o ganlyniad i broblemau gyda chapasiti'r gwasanaeth?
- Sut fydd eich gwasanaeth yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau capasiti?

O'r asesiadau a gaewyd cyn eu cwblhau:

- Faint o'r rhain oedd o ganlyniad i'r ymgeisydd yn tynnu yn ôl?
- Faint o'r rhain oedd o ganlyniad i benderfyniad y gwasanaeth i'w cau?
- A oes unrhyw themâu yn dod i'r amlwg?

Cymeradwyo *(Cyfeiriwch at DPAau dychweliadau misol Maethu Cymru, a rhan 5c set ddata yr NFF)

Blwyddyn	Nifer y gofalwyr maeth newydd a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.	Nifer y lleoliadau newydd sydd ar gael o ganlyniad i'r cymeradwyaethau hyn

- A yw eich cyfraddau cymeradwyo ar gynnydd / yn lleihau?

- A yw'r lleoliadau newydd sydd ar gael ar gynnydd / yn lleihau?
- A oes unrhyw themâu yn dod i'r amlwg?
- Os yw'r nifer sy'n cael eu cymeradwyo yn lleihau, pa gynlluniau sydd gan y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn?

Cyfradd gyfnewid

Mae cyfraddau cyfnewid yn dangos pa mor effeithiol fu eich negeseuon, a'r gallu i droi ymholiadau yn gymeradwyo, yn ogystal â phenderfynu beth yw'r pwyntiau allweddol pan fo cyfraddau cyfnewid yn amrywio.

Mae'r tabl isod yn dangos ein cyfraddau cyfnewid ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

Nodwch y flwyddyn	Ymholiadau	Ymweliadau cychwynnol	Hyfforddi cyn cymeradwyo	Asesiadau a ddyrannwyd	Cymeradwyaethau
Nifer					
Cyfradd gyfnewid o'r cam blaenorol (%)					
Cyfradd gyfnewid o'r Ymholiad Cychwynnol (%)					
Nodwch y flwyddyn					
Nifer					
Cyfradd gyfnewid o'r cam blaenorol (%)					
Cyfradd gyfnewid o'r Ymholiad Cychwynnol (%)					
Nodwch y flwyddyn					
Nifer					
Cyfradd gyfnewid o'r cam blaenorol (%)					
Cyfradd gyfnewid o'r Ymholiad Cychwynnol (%)					


Dadansoddwch y canfyddiadau ac ystyriwch y cwestiynau a ganlyn:

- Ystyriwch a chymharwch yn erbyn y cyfartaleddau cyfnewid cenedlaethol cyfredol (Adroddiad Perfformiad Blynnyddol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a/neu wybodaeth arall sydd ar gael e.e. Y Rhwydwaith Maethu)
- A yw eich cyfraddau cyfnewid wedi newid, ac ar ba gam yn y broses?
